

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO	PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 13 HYDREF, 2026 am 2.00 o'r gloch yp	TUESDAY, 13 OCTOBER, 2026 at 2.00 pm
CYFARFOD HYBRID – YN YSTAFELL BWYLLGOR, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	HYBRID MEETING – IN COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI AND VIRTUALLY THOROUGH ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Mrs. Mairwen Hughes 01248 752518 Committee Officer

ELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

Y Grwp Annibynnol / The Independent Group

Gwilym O Jones (Is-gadeirydd/Vice-Chair)

Plaid Cymru / The Party of Wales

Non Dafydd, Euryrn Morris, John Ifan Jones, Dylan Rees, Margaret M Roberts, Sonia Williams
(Cadeirydd/Chair)

Annibynnwyr Môn/Anglesey Independents

Robert Ll Jones, Derek Owen, Liz Wood

Llafur Cymru/Welsh Labour

Pip O'Neill

Aelod Unigol/Unaffiliated

Douglas M Fowlie

Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters) Parchedig/Reverend Llewelyn Moules-Jones - (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Kathryn Seeney - (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector) Christina Williams - (Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor – Secondary Schools Sector and ALN) Mr John Tierney (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)

Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)

Mr. Dafydd Gruffydd (Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Menter Môn)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fwy a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 COFNODION (Tudalennau 1 - 20)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd canlynol :-

- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi, 2026
- Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2026

4 CRAFFU PARTNERIAETHAU STRATEGOL - TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU (Tudalennau 21 - 38)

Derbyn cyflwyniad gan Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5 ADRODDIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2025/26 (Tudalennau 39 - 52)

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn : 2025/2026.

6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR 2026/2027 (Tudalennau 53 - 62)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2026

YN BRESENNOL:	Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd) Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowle, John Ifan Jones, Eurn Morris, Pip O'Neill, Dylan Rees a Margaret Murley Roberts Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo - ar gyfer eitem 4 Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd ar gyfer eitem 5 a 6.
WRTH LAW:	Y Prif Weithredwr, Y Dirprwy Brif Weithredwr, Y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 4), Y Pennaeth Gwasanaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo (ar gyfer eitem 5 a 6), Y Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, Y Rheolwr Economi Ymwelwyr ac Ardaloedd Arfordirol (AG) (ar gyfer eitem 4), Y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff (SO) (ar gyfer eitem 5), Y Rheolwr Craffu a Gwasanaethau Pwyllgorau (AH), Swyddog Pwyllgorau (MEH), Cynorthwyydd Cefnogi - Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH).
YMDDIHEURIADA U:	Y Cynghorydd Derek Owen. Mr John Tierney - Yr Eglwys Gatholig Rufeinig Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion
HEFYD YN BRESENNOL:	Aelodau Portffolio Y Cynghorydd Carwyn Jones - Aelod Portffolio Tai a Diogelwch Cymunedol, Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg, Y Cynghorydd Nicola Roberts - Aelod Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, Y Cynghorydd Gary Pritchard - Arweinydd y Cyngor ac Aelod Portffolio Datblygu Economaidd,

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGAN DIDDORDEB

Fe wnaeth y Cynghorydd Douglas M Fowlie ddatgan diddordeb personol a rhagfarnus yn gysylltiedig ag Eitem 4 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Fe wnaeth y Cynghorydd John Ifan Jones ddatgan diddordeb personol a rhagfarnus yn gysylltiedig ag Eitem 4 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais.

Fe wnaeth y Cynghorydd Alun Roberts ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 4 - Ymgynghoriad Ardoll Ymwelwyr ond ar ôl derbyn caniatâd arbennig gan y Pwyllgor Safonau roedd yn cael cyflwyno'r adroddiad i'r Pwyllgor.

3 COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 14 Gorffennaf 2026 yn gywir.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

Craffu ar Bartneriaeth Strategol - Cyfoeth Naturiol Cymru

- Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu rhagor o wybodaeth am y sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio dŵr yfed yn ogystal ag eglurhad ynglŷn â'r broses ar gyfer ystyried effaith datblygiadau arfaethedig ar yr Ynys ar ddŵr yfed.

Derbyniodd yr Aelodau Etholedig e-bost gan Gyfoeth Naturiol Cymru ar 10 Awst, 2026.

- Bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn darparu dolen ar-lein y gall Aelodau ei rhannu ag etholwyr, sy'n amlinellu sut y gallant gysylltu â Chyfoeth Naturiol Cymru.

Rhannwyd yr wybodaeth ag Aelodau'r Pwyllgor ar 10 Awst, 2026.

Cynllun Strategol Taclo Tlodi

Gofyn i sefydliadau trydydd sector gwblhau asesiad effaith a defnyddio'r canfyddiadau i ysgrifennu llythyr ar y cyd ar ran y Pwyllgor at Lywodraeth y DU a

Llywodraeth Cymru, er mwyn tynnu sylw at effaith sylweddol rôl arfaethedig y Cydbwyllgor Corfforedig mewn perthynas â Chyllid y Gronfa Twf Lleol ar Ynys Môn, a dadlau dros ddychwelyd at fodel y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) (70% refeniw, 30% cyfalaf) i sicrhau fod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau.

Ar y gweill

4 YMGYNGHORIAD AR GYFLWYNO ARDOLL YMWELWYR

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo bod y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod llawn ar 12 Mai, 2026 wedi penderfynu cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y posibilrwydd o gyflwyno ardoll ymwelwyr yn Ynys Môn (yn unol â chanllawiau'r Cyngor a Llywodraeth Cymru). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 15 Mai, 2026 a 13 Gorffennaf, 2026 drwy broses ar-lein a 6 sesiwn wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd un sesiwn yn benodol ar gyfer y sector busnes ar y cyd ag Awdurdod Cyllid Cymru yn Llangefni ar 22 Mehefin 2026. Derbyniodd y Cyngor 2,098 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein ac yn ystod y sesiynau wyneb yn wyneb. Mae gwrthwynebiad cryf i'r Ardoll Ymwelwyr, gyda 70.8% o'r holl ymatebwyr yn gwrthwynebu neu'n dueddol o wrthwynebu cyflwyno'r ardoll ymwelwyr, tra bo 25.1% yn cefnogi, neu'n dueddol o gefnogi. Aeth ymlaen i ddweud bod gwendidau amlwg yn y ddeddfwriaeth wedi cael eu hamlygu a bod y gwendidau hynny'n ymwneud yn bennaf â gweinyddu a chasglu'r ardoll a'r ffaith y byddai'n rhaid i blant ifanc dalu'r ardoll. Dywedodd yr Aelod Portffolio mai'r argymhelliad yw peidio â chefnogi cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr gan fod rhaid cefnogi'r diwydiant twristiaeth ar yr Ynys.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Holwyd ynglŷn â'r weithdrefn ar gyfer ymateb i Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r pryderon yn gysylltiedig â'r anghysondebau rhwng lefel yr ardoll y byddai pobl sy'n aros mewn carafanau a gwestai yn ei dalu. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod yr anghysondebau'n ymwneud â'r modd y byddai'r ardoll yn cael ei chasglu wedi cael eu hamlygu yn ystod y broses ymgynghori. Nododd mai'r argymhelliad yw bod y Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Arweinydd, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar ar Ynys Môn. Pwysleisiodd bod barn y bobl ar yr Ardoll Ymwelwyr yn hanfodol bwysig a'i bod hi'n amlwg, yn dilyn y broses ymgynghori, bod gwrthwynebiad chwyrn i'r ardoll a bod angen newid deddfwriaethol i sicrhau proses deg oherwydd demograffig a natur Ynys Môn gan fod twristiaeth yn bwysig i'r Ynys. Dywedodd y byddai'n haws gweinyddu'r ardoll mewn ardaloedd trefol.
- Holwyd ynglŷn ag effaith yr ardoll ar fusnesau a sut y byddai unrhyw incwm yn cael ei ddyrannu. Eglurodd yr Aelod Portffolio nad yw'r ddeddfwriaeth yn caniatáu ystyried incwm yn deillio o'r ardoll fel rhan o'r broses ymgynghori. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y Pwyllgor Gwaith yn ymateb i anghenion busnesau twristiaeth bach a chanolog, sy'n ganolog i economi leol Ynys Môn.

Ychwanegodd bod y ddeddfwriaeth bresennol yn achosi heriau ar gyfer y sector a phwysleisiodd bod rhaid cefnogi twristiaeth gynaliadwy.

- Nodwyd bod y Pwyllgor yn cytuno gyda'r argymhelliad bod y Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Arweinydd, yn ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar ar Ynys Môn, fodd bynnag holwyd pe byddai modd cynnwys gwybodaeth ychwanegol er mwyn pwysleisio bod Ynys Môn yn unigryw gan ei bod yn Ynys. Dywedodd Arweinydd y Cyngor y byddai'n anodd i lywodraeth greu deddfwriaeth ar gyfer gwahanol ardaloedd. Dywedodd y dylai'r Cyngor amlygu nad yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn gynaliadwy i fusnesau bach a chanolig ar yr Ynys ac amlygu'r gwendidau mewn deddfwriaeth o'r fath. Dywedodd y prif Weithreder y byddai'n fanteisiol pwysleisio bod Ynys Môn yn ddibynnol ar fusnesau bach.
- Cyfeiriwyd at yr Asesiad o'r Effaith ar yr Economi sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad a holwyd p'un a yw'r ffigurau yn yr adroddiad yn gywir y gallai Ynys Môn elwa o £1.56m yn sgil cyflwyno'r Ardoll Ymwelwyr. Mewn ymateb, dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bod heriau gyda'r setiau data a osodwyd gan y llywodraeth a bod y ffigurau'n amrywio'n sylweddol. Nid oes tystiolaeth gyson ar gael ledled Cymru i edrych ar botensial yr Ardoll Ymwelwyr a'r risgiau'n gysylltiedig â'i chyflwyno. Nododd y byddai hyn yn cael ei amlygu yn y llythyr at Lywodraeth Cymru.
- Holwyd ynglyn â'r ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr a p'un a oedd awdurdodau lleol wedi cael eu gorfodi i ymgynghori. Roedd rhai Aelodau'n meddwl ei bod hi'n gynamserol cyflwyno ardoll o'r fath heb wybodaeth ddigonol nac eglurder ar lefel y DU ynglyn â'r goblygiadau. Eglurodd y Prif Weithredwr bod y ddeddfwriaeth yn nodi'r broses yn glir a bod rhaid i'r Cyngor ddilyn y broses hon cyn penderfynu mabwysiadu'r ardoll. Nododd bod yr ymgynghoriad yn rhan statudol o'r broses. Nododd ei bod hi'n anodd asesu effaith yr ardoll ar ardaloedd gwledig a threfol. Dywedodd Arweinydd y Cyngor mai'r Cyngor Sir benderfynodd gynnal ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr yn ystod ei gyfarfod ar 12 Mai, 2026 er mwyn rhoi cyfle i drigolion a busnesau fynegi barn ar y cyfle i gyflwyno ardoll. Mae amserlen o 12 mis ar gyfer ymgynghori a chyflwyno'r ardoll.
- Holwyd ynglyn â'r goblygiadau ar fusnesau o ran treth wrth gasglu'r Ardoll Ymwelwyr a'r ffaith na fyddai'r Awdurdod yn derbyn y swm yn llawn ar ôl trosglwyddo'r ardoll i Lywodraeth Cymru. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod gwendidau amlwg yn y ddeddfwriaeth o ran gweinyddu a chasglu'r ardoll. Nododd bod ansicrwydd ynglyn â pha ganran yr ardoll a fyddai'n cael ei throsglwyddo i Awdurdodau Lleol.

PENDERFYNWYD:-

- **Na ddylai'r Cyngor fabwysiadu'r Ardoll Ymwelwyr oherwydd yr ansicrwydd sy'n wynebu'r sector twristiaeth ar hyn o bryd a chanlyniad yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r asesiadau effaith.**
- **Y dylai'r Cyngor fonitro, adolygu ac yn ystyried y dystiolaeth ar effaith yr Ardoll Ymwelwyr mewn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru sydd wedi dewis mabwysiadu'r Ardoll, ac unrhyw newidiadau i'r ddeddfwriaeth berthnasol.**

- **Y dylai'r Prif Weithredwr, ar y cyd â'r Arweinydd, ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn gofyn am adolygiad o'r drefn ddeddfwriaethol bresennol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd yn ystod y broses ymgynghori ddiweddar. Dylid rhannu llythyr o'r fath at Lywodraeth Cymru gyda'r holl aelodau etholedig.**

5 NEWIDIADAU I GASGLIADAU AILGYLCHU A GWASTRAFF

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd fod gan y Cyngor rwymedigaeth statudol i ailgylchu 70% o'r gwastraff y mae'n ei gasglu o gartrefi. Ym mis Rhagfyr 2025 penderfynodd y Pwyllgor Gwaith gynnal proses ymgynghori ar gyflwyno newidiadau posib i'r gwasanaeth Ailgylchu a Chasglu Gwastraff ar Ynys Môn. Cynhaliwyd proses ymgynghori rhwng mis Ionawr a Chwefror 2026. Derbyniwyd dros 4,000 o ymatebion ac mae'r ymatebion hynny wedi'u crynhoi yn Atodiad 1 yn yr adroddiad. Yn dilyn y broses ymgynghori argymhellwyd y dylid parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy ddechrau casglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240 litr presennol, yn 2029. Er mwyn cynyddu'r cyfraddau ailgylchu erbyn 2029 argymhellwyd darparu mwy o le yn y bocsys ailgylchu h.y. casglu cardfwrdd a phapur gyda'i gilydd yn rhan uchaf y troli bocsy; darparu mwy o le i ailgylchu cardfwrdd a/neu blastig caled a chaniau; cynnal ymgyrch i godi ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth pobl ynglyn ag ailgylchu ac ailddefnyddio; cynnal ymchwil i weld a oes modd ailgylchu mwy o ddeunyddiau yn cynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill; mynd ati i ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid gan Lywodraeth Cymru. Mae tystiolaeth glir o Gyngor Casnewydd a Chyngor Sir y Fflint bod lleihau maint eu biniau du wedi eu helpu i gyrraedd y targedau ailgylchu sydd wedi cael eu gosod gan Lywodraeth Cymru. Er y byddai modd dechrau casglu cardfwrdd a phapur gyda'i gilydd yn gynt, mae WRAP Cymru yn argymhell cyflwyno'r holl newidiadau i'r gwasanaeth ar yr un pryd i leihau'r risg o fethu ag ymdopi â'r ailgylchu ychwanegol a hwyluso'r newidiadau i'r cwsmer drwy gael un cynllun cyfathrebu clir. Dywedodd y byddai cael cynllun busnes cadarn yn helpu'r Cyngor i sicrhau cyllid o rhwng 60% a 70% gan Lywodraeth Cymru er mwyn gwella'r seilwaith yng Nghanolffannau Ailgylchu Penhesgyn a Gwalchmai.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Holwyd ynglyn â'r bwriad i godi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd ailgylchu ac ailddefnyddio a p'un a yw'r Cyngor yn ystyried cynnal ymgyrch i addysgu pobl i roi gwastraff bwyd yn y Bin Brown gan fod y ffigurau'n dangos nad yw 27% o drigolion yn defnyddio eu bin gwastraff bwyd. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Cyngor wedi ymgysylltu ag awdurdodau lleol eraill sydd wedi llwyddo i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70%, yn unol â'r targedau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, i weld sut y maent hwy wedi mynd ati i ddwyn perswâd ar drigolion i ailgylchu.
- Holwyd ynglyn â chanran y trigolion sydd ddim yn defnyddio'r Bin Gwyrdd ar gyfer Gwastraff Gardd ers cyflwyno'r dreth ychwanegol. Roedd Arweinydd y Cyngor yn dymuno cadarnhau mai ffi ar gyfer casglu'r Gwastraff Gardd yw hwn

ac nid treth ychwanegol. Nododd bod y ffi wedi cael ei chyflwyno er mwyn darparu gwasanaeth casglu gwastraff gardd i bawb sydd ei angen. Nid oes gan bawb ardd ac felly nid yw'r gwasanaeth yn cael ei ddefnyddio gan bawb. Dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n anfon y ffigurau dros e-bost at yr aelod a oedd wedi codi'r mater. Pwysleisiodd bod pob awdurdod lleol arall yn codi ffi am gasglu gwastraff gwyrdd.

- Cyfeiriwyd at y dirwyon y gellid eu derbyn gan Lywodraeth Cymru os nad yw'r cyfraddau i gyrraedd cyfradd ailgylchu o 70% yn gwella. Holwyd pe byddai'n rhaid codi'r Dreth Gyngor i dalu am y dirwyon hyn. Dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n rhaid edrych ar adnoddau pe byddai'r Awdurdod yn derbyn dirwy am beidio â chyrraedd y targedau ailgylchu. Fodd bynnag, drwy gynhyrchu achos busnes sy'n dangos bod modd i'r Awdurdod gyrraedd y targedau ailgylchu a bod ganddo gynlluniau cadarn ar waith i gyrraedd y targedau hynny, gellir dangos bod yr Awdurdod yn cymryd camau tebyg i awdurdodau eraill. Dywedodd y Prif Weithredwr bod pob cam yn cael ei gymryd i osgoi dirwyon o'r fath ond os caiff y Cyngor ddirwy bydd ganddo dri opsiwn posib o ran defnyddio adnoddau h.y. defnyddio ei gronfeydd wrth gefn, lleihau gwariant mewn gwasanaethau eraill neu leihau cyllid. Dywedodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod modd i'r Awdurdod gael gafael ar 65% o'r cyllid, dros £20m, pe byddai'r Cyngor yn penderfynu cyflwyno'r argymhellion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Mae angen cyllid o hyd at £15m i wella Canolfan Ailgylchu Gwalchmai ynghyd â'r peiriannau ar y safle ac ni fydd y grant ar gael oni bai bod gennym lwybr clir ar gyfer cynyddu cyfraddau ailgylchu.
- Cyfeiriwyd at y broses ymgynghori a'i bod hi'n amlwg o'r dystiolaeth bod trigolion yn dewis peidio â defnyddio'r Bocs Brown ar gyfer Gwastraff Bwyd, ac felly mae 27% o'r bin du'n cynnwys bwyd. Dywedodd y Prif swyddog Rheoli Gwastraff ei fod yn gobeithio y bydd lleihau maint y bin du yn annog trigolion i ddefnyddio'r bin brown ar gyfer gwastraff bwyd a'i bod hi'n hanfodol bwysig addysgu pobl os ydym am lwyddo i gyrraedd y targedau ailgylchu. Cyfeiriodd y Pwyllgor hefyd at yr angen i dargedu ardaloedd penodol lle mae'n amlwg nad yw trigolion yn ailgylchu. Gofynnwyd a yw'r data ar gael ar gyfer yr ardaloedd hyn. Dywedodd y Pennaeth Prifffyrdd Gwastraff ac Eiddo bod y data wedi cael ei gasglu gan WRAP Cymru a'i fod yn dangos bod rhai ardaloedd yn well na'i gilydd am ailgylchu; bydd yr ardaloedd hyn yn cael eu targedu er mwyn addysgu pobl ynglyn ag ailgylchu. Holwyd p'un a yw'r Awdurdod wedi ystyried cyflogi swyddog penodol i addysgu a thargedu ardaloedd sydd ddim yn cydymffurfio. Dywedodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo er ei fod yn derbyn bod angen addysgu pobl ynglyn â phwysigrwydd ailgylchu mae ffyrdd eraill o gyrraedd y targed, sydd wedi bod yn llwyddiannus mewn cynghorau eraill, megis lleihau maint y biniau du.
- Holwyd p'un a yw'r ffigurau yn yr adroddiad yn cynnwys casgliadau bin gan ddarparwyr preifat. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y ffigurau'n cynnwys casgliadau gwastraff yr Awdurdod yn unig.
- Holwyd ynglyn â'r gost o newid y biniau du a p'un y gellid eu cyflwyno'n raddol gan nad yw bin pawb yn llawn ar ôl tair wythnos. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod WRAP Cymru wedi nodi y dylid cyflwyno'r newidiadau ar yr un pryd ymhen tair blynedd, i sicrhau bod y seilwaith wedi cael ei diweddarau. Dywedodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff bod rhaid cael cynllun ar gyfer newid y biniau du, ac

y gellid darparu biniau 240 litr i deuluoedd mwy. Mae'r biniau du presennol wedi cael eu defnyddio ers 20 mlynedd ac mae'n bryd eu newid.

- Holwyd p'un a oedd y Cyngor wedi'i gwneud hi'r glir yn ystod y broses ymgynghori ei fod yn bwriadu cyflwyno biniau du llai 180 litr. Nodwyd hefyd y dylai addysgu trigolion ynglyn â phwysigrwydd ailgylchu fod wedi bod yn ffactor wrth benderfynu lleihau maint y bin du. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod glasbrint casgliadau Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai aelwydydd fod yn gwastraffu dim mwy na 60 litr yr wythnos a bod WRAP Cymru hefyd yn argymhell lleihau maint y bin du i 60 litr yr wythnos.
- Nodwyd na fydd angen yr hen finiau du 240 litr ac y bydd yn rhaid eu casglu gan bob aelwyd. Holwyd a fydd y gwaith o gasglu a chael gwared ar y biniau du 240 litr yn cydymffurfio ag amcanion ailgylchu'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio y bydd y biniau 240 litr yn cael eu hailgylchu heb lygru safleoedd tirlenwi ac y bydd modd gwerthu'r gronynnau plastig ar ôl i'r biniau gael eu llarpio. Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer bod hyn yn bwysig gan y gallai'r Cyngor wynebu dirwy o £600k y flwyddyn am fethu â chyrraedd y targedau ailgylchu. Bydd y biniau 180 litr newydd yn costio £350k i'r Cyngor yn dilyn grant o 65% gan Lywodraeth Cymru. Nododd na fydd y grant ar gael i'r Cyngor oni bai ei fod yn cytuno ar gynllun i wella ei gyfraddau ailgylchu. Mae angen gwella'r seilwaith yng Nghanolfannau Ailgylchu Gwastraff Penhesgyn a Gwalchmai yn ogystal.
- Nodwyd bod rhai awdurdodau lleol yn Lloegr yn casglu bwyd a gwastraff gardd mewn un bin gan fod ganddynt gyfleuster compostio mewnol. Holwyd ynglyn â'r bwriad i osod cyfleuster o'r fath wrth uwchraddio'r Canolfannau Ailgylchu. Dywedodd yr Uwch swyddog Rheoli Gwastraff bod gwastraff bwyd yn cael ei gludo i beiriant treulio anaerobig yng Ngwynedd. Nododd bod y peiriant compostio ym Mhenhesgyn yn delio â gwastraff gwyrdd yn unig.

PENDERFYNWYD :-

- **Parhau i gasglu gwastraff gweddilliol unwaith pob 3 wythnos ond drwy ddechrau casglu biniau du 180 litr newydd, yn hytrach na'r biniau 240 litr presennol, yn 2029.**
- **Creu mwy o ofod ar gyfer ailgylchu erbyn 2029 drwy:**
 - **gasglu cardfwrdd a phapur gyda'i gilydd yn rhan uchaf y trolibocs.**
 - **cynnig opsiynau storio ychwanegol ar gyfer ailgylchu cardfwrdd a/ neu blastig caled a chaniau ychwanegol.**
- **Cynnal ymgyrch codi ymwybyddiaeth i wella dealltwriaeth ynglyn ag ailgylchu ac ailddefnyddio.**
- **Ymchwilio i'r posibilrwydd o ailgylchu mwy o ddeunyddiau yn cynnwys plastig meddal a deunyddiau eraill.**
- **Symud ymlaen i ddatblygu a chyflwyno achos busnes amlinellol am gyllid gan Lywodraeth Cymru.**

6 MASNACHFREINIO BYSIAU – LLWYBRAU BYSIAU ARFAETHEDIG

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn fel rhan o'i baratodau ar gyfer y broses masnachfreinio. Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 9 Hydref, 2026. Amcan Trafnidiaeth Cymru yw gweld lleihad o 10% yn nifer y milltiroedd y mae pobl yn ei deithio mewn car erbyn 2030 a chynyddu canran y siwrneiau ar drafnidiaeth gyhoeddus a theithiau llesol i 45% erbyn 2040. Er mwyn gwneud bysiau'n opsiwn mwy deniadol i bobl, y nod yw creu rhwydwaith symlach drwy gynnig dewis eang o siwrneiau a darparu gwasanaethau mwy rheolaidd. Nododd bod y llwybrau arfaethedig wedi'u cynnwys yn Atodiad 2 yn yr adroddiad, a'i bod hi'n amlwg bod bylchau yn y llwybrau y bydd rhaid mynd i'r afael â hwy. Ar hyn o bryd mae Medrwn Môn yn darparu Trafnidiaeth Gymunedol ac mae rhai Cyngorau Cymuned yn darparu gwasanaeth bysiau mewn ardaloedd gwledig.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Cyfeiriwyd at y rhwydwaith arfaethedig sy'n cynnig 9 gwasanaeth/llwybr yn hytrach na'r 30 sy'n gweithredu ar hyn o bryd a chafwyd sylwadau ar bob llwybr yn yr adroddiad. Holwyd p'un a yw'r Swyddog Trafnidiaeth wedi ymateb i'r llwybrau arfaethedig hyn. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod y Swyddog Trafnidiaeth wedi darparu ymateb i Drafnidiaeth Cymru ynglyn â'r llwybrau arfaethedig hyn. Mae Trafnidiaeth Cymru wedi adolygu'r llwybrau presennol ac awgrymu'r 9 llwybr gwasanaeth i sicrhau gwasanaeth effeithiol. Holwyd ynglyn â'r data a ddefnyddir gan Drafnidiaeth Cymru a'r defnydd a wneir o ddata ffonau symudol i adnabod patrymau symud teithwyr. Dywedodd yr Aelod Portffolio nad oes darpariaeth ddiwifr ar fysiau ar hyn o bryd a holwyd sut yr oedd Trafnidiaeth Cymru wedi llwyddo i ddefnyddio cyfleuster tracio o'r fath felly.
- Holwyd a fyddai modd asesu'r 9 llwybr arfaethedig yn erbyn y 30 llwybr bysiau sydd ar yr Ynys ar hyn o bryd a'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Dywedodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod defnydd wedi lleihau'n sylweddol ers y pandemig a bod costau rhedeg yn cynyddu. Dywedodd ei bod hi'n bwysig bod Aelodau Etholedig a thrigolion yr Ynys yn ymateb i'r ymgynghoriad ar y rhwydwaith bysiau arfaethedig. Nododd ei bod hi'n her darparu gwasanaeth bysiau mewn ardaloedd gwledig. Mae Trafnidiaeth Cymru'n dymuno gwella'r llwybrau sy'n cysylltu ardaloedd arfordirol ond mae'r Awdurdod wedi mynegi y bydd hyn yn peri her i bobl sy'n byw mewn pentrefi gwledig a bod gwasanaeth bysiau'n hanfodol i'r bobl hyn er mwyn eu galluogi i gyrraedd y gwaith ac apwyntiadau meddygol a mynd i'r ysbyty.
- Holwyd p'un a oes modd i drigolion lleol gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod yr ymgynghoriad ar gael ar-lein a bod sesiynau galw heibio hefyd wedi'u trefnu. Nododd ei bod hi'n hanfodol bwysig bod Aelodau Etholedig yn hyrwyddo'r broses ymgynghori yn eu hetholaeth.
- Cyfeiriwyd at y Cyngbreiriau Cymunedol sy'n darparu trafndiaeth mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisiwyd ei bod hi'n bwysig bod y bysiau yn gwasanaethu'r cymunedau hyn ac na ddylid eu diystyru oherwydd bod y Cyngbreiriau Cymunedol eisoes yn darparu gwasanaeth. Dywedodd yr Aelod

Portffolio ei bod hi'n bwysig bod Trafnidiaeth Cymru yn ymwybodol bod angen darpariaeth o'r fath yn yr ardaloedd lle mae'r Cynghreiriau Cymunedol yn darparu gwasanaeth a'u bod yn cadarnhau na fydd yr ardaloedd hyn yn cael eu diystyru fel rhan o'u cynlluniau masnachfreinio.

- Cyfeiriwyd at golli'r gwasanaeth bysiau ym mhentref Bodedern. Mae'r pentref wedi colli 15 siwrnai'r dydd ers 2024 ac nid oes gwasanaeth i Fangor na Llangefni. Fe wnaeth yr Aelod Portffolio ailadrodd ei bod hi'n bwysig bod Aelodau Etholedig a thrigolion ar yr Ynys yn ymateb i'r ymgynghoriad ac yn cael cefnogaeth gan y Prif Weinidog a'r Aelod Seneddol i fynegi eu pryderon bod y ddarpariaeth mewn rhai pentrefi yn annigonol.
- Awgrymwyd y dylai Aelodau Etholedig gwrdd mewn sesiwn anffurfiol i drafod y llwybrau bysiau ac i godi unrhyw bryderon yn eu hetholaethau. Dywedodd y Prif Weithredwr ei bod hi'n bwysig bod y Cyngor yn cymeradwyo'r llwybrau bysiau cyn i'r broses ymgynghori ddod i ben. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y Swyddog Trafnidiaeth wedi adolygu'r llwybrau bysiau a'u cymharu â'r llwybrau presennol ar Ynys Môn. Fodd bynnag, mae pryderon nad yw'r rhwydwaith yn gwasanaethu pob pentref ar yr ynys.
- Trafodwyd y posibilrwydd o sefydlu grŵp llywio i adolygu data'r ymgynghoriad. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo y byddai'n rhaid cynnal adolygiad o'r fath cyn i'r broses ymgynghori ddod i ben ar 9 Hydref 2026.
- Holwyd ynglyn â chost y ddarpariaeth gymunedol i'r Cyngor. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod ansicrwydd ynglyn â'r ddarpariaeth gymunedol ar hyn o bryd ac y bydd yr Awdurdod yn gofyn i Drafnidiaeth Cymru ariannu cyfran uchel o'r ddarpariaeth. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mai'r disgwyliad yw y bydd y Cyngor y rhan o fasnachfaint bysiau Gogledd Cymru ac y bydd disgwyl i Drafnidiaeth Cymru ariannu Trafnidiaeth Gymunedol/Hyblyg i wasanaethu'r pentrefi sydd ddim yn rhan o'r llwybrau bysiau.

Roedd y Pwyllgor yn poeni am yr ail argymhelliad sy'n nodi ei fod yn 'cefnogi' y rhwydwaith fysiau arfaethedig gan Drafnidiaeth Cymru. Nid oedd y Pwyllgor yn gallu cefnogi'r argymhelliad heb wirio bod data Trafnidiaeth Cymru'n ffeithiol a chywir. Nodwyd y dylid rhoi cyfle i drigolion ymateb i'r ymgynghoriad cyn i'r Cyngor gefnogi masnachfreinio bysiau ac y dylai'r argymhelliad nodi bod y Pwyllgor yn cefnogi adolygu'r rhwydwaith bysiau. Er ei fod yn derbyn y sylwadau dywedodd y Prif Weithredwr bod Trafnidiaeth Cymru yn gorff allanol a bod modd iddo barhau â'i gynlluniau heb sylwadau'r Awdurdod ac felly mae'n bwysig bod y Cyngor yn glynu wrth yr amserlen. Mae'n bwysig nodi bod modd i bob Aelod Etholedig ymateb i'r broses ymgynghori, ac awgrymodd y gallai'r Aelodau gynnal ymgynghoriad anffurfiol er mwyn cadw at yr amserlen.

PENDERFYNWYD:-

- **Nodi bod Trafnidiaeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad ar y rhwydwaith bysiau arfaethedig ar gyfer Ynys Môn fel rhan o'u gwaith paratoi ar gyfer masnachfreinio.**
- **Bod y Cyngor yn ymateb i'r ymgynghoriad erbyn y dyddiad cau, sef 9 Hydref, 2026, drwy gefnogi'r rhwydwaith bysiau arfaethedig y mae Trafnidiaeth Cymru wedi ei ddatblygu ond bod ystyriaeth bellach yn cael ei roi i'r llwybrau bysiau yn y dyfodol.**

Roedd y Cynghorydd Douglas Fowlie yn dymuno nodi ei fod yn erbyn newid yr ail argymhelliad.

**Y CYNGHORYDD SONIA WILLIAMS
CADEIRYDD**

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 28 Medi 2026

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Sonia Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Douglas M Fowle, John Ifan Jones, Eurn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Dylan Rees a Margaret Murley Roberts

WRTH LAW: Y Prif Weithredwr,
Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,
Y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,
Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd,
Swyddog Pwyllgorau (MEH),
Cynorthwyydd Cefnogi - Gwasanaethau Democrataidd (Gweddarlledu) (CH)

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Alun Roberts - Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth, Morwrol ac Eiddo.

Y Dirprwy Brif Weithredwr

HEFYD YN BRESENNOL:

Aelodau Portffolio

Y Cynghorydd Neville Evans - Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion, Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones - Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd;
Y Cynghorydd Dafydd Roberts - Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;
Y Cynghorydd Ieuan Williams - Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff a Newid Hinsawdd;
Y Cynghorydd Robin Williams - Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

Mr Dyfed Edwards – Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3);
Mr Paul Andrew - Cyfarwyddwr Gweithgareddau Gofal Integredig (y Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3);
Mr Tom Regan - Tîm Iechyd Meddwl – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (yn gysylltiedig ag eitem 3).

Mr Jim Lee – Cadeirydd y Nifty60's

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD DIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

3 CRAFFU AR BARTNERIAETH STRATEGOL - BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR:

Croesawodd y Cadeirydd Mr Dyfed Edwards - Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Mr Paul Andrew - Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gofal integredig (y Gorllewin) a Mr Tom Regan - Tîm Iechyd Meddwl i'r cyfarfod.

Rhoddodd Mr Paul Andrew a Mr Tom Regan gyflwyniad byr i'r Pwyllgor ar y bartneriaeth gadarn sy'n bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod. Nodwyd bod y naill sefydliad yn canolbwyntio ar wella iechyd, annibyniaeth a lles trigolion Ynys Môn.

Roedd Mr Jim Lee, Cadeirydd y Nifty60's wedi gofyn i gael bod yn bresennol. Dywedodd bod y Nifty60's wedi cael ei sefydlu yn 2019. Mae gan y Nifty60's bron i 900 o aelodau cofrestredig erbyn hyn ac mae'r rhaglen yn cynnig hyfforddiant ymwrthiant a gweithredol. Nod y Nifty60's yw lleihau'r risg o lithro a baglu ymhlith pobl hŷn a lleihau'r pwysau ar feddygfeydd ac adran damweiniau ac achosion brys Ysbyty Gwynedd. Rhoddodd flas o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y 13 lleoliad ledled yr Ynys. Cyfarfu cynrychiolwyr y Nifty60's ag Ellen Williams, Rheolwr Clwstwr Ardal y Gorllewin Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i drafod Atal Gofal Sylfaenol a'r posibilrwydd o gwrdd â Hwb Clystyrau Meddygon Teulu Ynys Môn i roi cyflwyniad iddynt yn y gobaith o sicrhau cyllid i ariannu'r Nifty60's. Ym mis Medi 2025 rhoddwyd dau gyflwyniad i'r Hwb Clystyrau Meddygon Teulu ym Menllech ac roedd yr adborth yn gadarnhaol ac o blaid darparu cyllid ar gyfer y Nifty60's. Trafodwyd ffigwr cychwynnol o £400k ac yn dilyn cyfarfod pellach roedd y swm yma wedi gostwng i tua £200k. Byddai hyn wedi golygu newid cynllun y Nifty60's drwy leihau nifer yr hyfforddwyr a pheidio â chael rheolwr. Yn dilyn cyfarfodydd pellach gyda'r bwrdd Iechyd nid oes arwydd bod modd dod o hyd i ddatrysiad i ariannu'r Nifty60's. Yn ystod y cyfarfodydd hyn awgrymodd y Nifty60's y gallai'r Bwrdd Iechyd sefydlu Cytundeb Lefel Gwasanaeth i drosglwyddo'r arian i'r Awdurdod Lleol, a bod y Nifty60's wedyn yn ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Awdurdod Lleol a fyddai'n craffu ar y gwaith ac yn derbyn adroddiadau chwarterol i sicrhau tryloywder. Aeth ymlaen i ddweud bod tua 450 o athletwyr, ar gyfartaledd, yn mynychu'r dosbarthiadau bob wythnos mewn 13 lleoliad a'i bod hi'n bosib bod tua 1,000 o bobl hŷn yn hyfforddi ar Ynys Môn bob wythnos. Ar ôl yr addewid cychwynnol y byddai cyllid ar gael mae'r Nifty60's bellach yn gorfod dweud wrth bobl ar y rhestr aros nad oes lle ar gael ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid. Mae Prif Weinidog Cymru wedi ymweld â'r Nifty60's ac mae o'r farn y dylai'r Bwrdd Iechyd ariannu'r Nifty60's. Roedd o'r farn y dylid defnyddio Ynys Môn fel peilot ar gyfer gweddill Cymru. Aeth Mr Lee ymlaen i ddweud ei fod wedi rhoi cyflwyniad, ar gais Mr Robert Callow, Swyddog Ymgysylltu'r Bwrdd

lechyd, yn ystod Digwyddiad Datblygu Strategol yng Nghanolfan Fusnes Conwy ym mis Hydref 2025 ac Ebrill 2026. Hefyd, ar gais Jenna Gallagher, Arbenigwr Cefn CMATS, mae'r Nifty60's wedi mynychu diwrnodau Cyfeirio Cymunedol BIPBC yng Nghanolfannau Hamdden ar hyd a lled Ynys Môn lle mae ffisiotherapyddion yn cyfeirio cleifion i'r Nifty60's. Aeth Mr Lee ymlaen i ddweud bod Sarcopenia yn gyflwr lle mae pobl yn colli mas y cyhyrau ac mae Meddygon Teulu'n cyfeirio cleifion at y Nifty60's i'w helpu i gynyddu mas y cyhyrau. Dywedodd bod yr ansicrwydd ynglŷn â'r cyllid gan y Bwrdd lechyd yn rhwystredig i'r Nifty60's a bod hyn yn amharu ar y rhaglen a'i allu i helpu pobl hŷn i wella eu hiechyd corfforol a chymdeithasu i wella eu hiechyd meddwl.

Rhoddwyd cyfle i Mr Lee holi cynrychiolwyr y Bwrdd lechyd. Cododd y materion canlynol:-

- **Gweithio mewn Partneriaeth a Chynaliadwyedd** - yn sgil y pwysau ariannol sy'n wynebu'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, pa gyfleoedd pellach sydd gan y Bwrdd lechyd i ddatblygu cytundebau lefel gwasanaeth gydag awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ddarparu cymorth ataliol a chymunedol? A fyddai'r Bwrdd lechyd yn ystyried cynyddu'r buddsoddiad mewn rhaglenni cymunedol llwyddiannus sy'n helpu i atal salwch, lleihau'r galw ar wasanaethau statudol a chyfrannu at gynaliadwyedd tymor hwy ar draws y system gofal iechyd a chymdeithasol?
- **Elw ar Fuddsoddiad** - mae nifer o raglenni cymunedol a thrydydd sector wedi cael eu cynllunio i gadw pobl yn iach, annibynnol ac mewn cysylltiad, ac mae hynny'n lleihau'r galw ar Feddygon Teulu, ysbytai a gwasanaethau gofal cymdeithasol. Yn sgil y dystiolaeth bod atal yn aml iawn yn fwy cost effeithiol nag ymyrraeth frys, pam nad ydi'r Bwrdd lechyd yn fwy cyson wrth fuddsoddi mewn rhaglenni ataliol tymor hir drwy sefydlu cytundebau partneriaeth ffurfiol gydag awdurdodau lleol a sefydliadau cymunedol?

Dywedodd Mr Dyfed Edwards, Cadeirydd Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod Mr Lee wedi mynychu Cynadleddau'r Bwrdd sy'n trafod pwysigrwydd gweithio gyda chynlluniau ataliol ac roedd yn cydnabod ei rwystredigaeth o ran yr ansicrwydd ynglŷn â chyllido'r cynllun Nifty60's. Nododd y byddai'n trafod gyda Mr Paul Andrew (a oedd hefyd yn bresennol) fel bod ymateb yn cael ei anfon i'r Nifty60's cyn gynted â phosib. Bydd copi o'r ohebiaeth at Mr Lee yn cael ei hanfon at y Cyngor hefyd. Gofynnodd y Pwyllgor a fyddai modd rhoi rhyw syniad i'r Nifty60's pryd y gallant ddisgwyl derbyn ymateb. Dywedodd Mr Edwards nad oedd yn gallu ymrwmo i unrhyw amserlen benodol ond dywedodd y byddai'n cysylltu â Mr Jim Lee unwaith y bydd ganddo unrhyw wybodaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr bod y Nifty60's wedi derbyn cyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin drwy Medrwn Môn yn y gorffennol ac awgrymodd y dylid chwilio am ffynonellau cyllido tebyg.

Mewn ymateb i'r ail gwestiwn dywedodd Mr Edwards bod y Bwrdd lechyd dan bwysau gan swyddfa Prif Weinidog Cymru i ariannu cynlluniau o'r fath, ond y byddai hynny'n golygu gwneud arbedion sylweddol mewn rhannau eraill o'r Bwrdd lechyd. Nododd bod angen edrych yn wahanol ar anghenion lechyd a Lles. Dywedodd bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r bwrdd lechyd symud 0.5% o'r gyllideb ar gyfer Gwasanaethau Aciwt i'r Adain Gymunedol. Roedd y Bwrdd lechyd eisoes wedi trafod hyn cyn derbyn cyfarwyddyd gan y Llywodraeth, ond tra bod pobl ar restrau aros maith am driniaeth mae'n benderfyniad anodd ond rhaid cefnogi pobl yn gynharach yn y system. Y fframwaith polisi fydd yn cael ei ddefnyddio yw'r dull Gymunedol o'r Cychwyn, i ddarparu gwasanaethau a phob math o ddarpariaeth i gefnogi pobl yn y gymuned. Aeth Mr Edwards ymlaen i ddweud bod y Nifty60's yn rhoi cyfle i bobl gymdeithasu a bod hynny'n helpu gydag unigrywdd.

Wrth ystyried y cyflwyniad, nododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Nodwyd bod 72 plentyn o Ynys Môn ar y rhestr aros am Wasanaethau Niwroamrywiol ac Awtistiaeth. Holwyd sut mae'r Bwrdd lechyd yn bwriadu lleihau'r rhestr aros gan fod 3 blynedd yn annerbyniol a dylai plant gael eu gweld o fewn ychydig fisoedd. Dywedodd Mr Dyfed Edwards ei bod hi'n anodd recriwtio staff profiadol i ddelio gydag atgyfeiriadau. Dywedodd bod y Bwrdd yn ceisio sefydlu tîm a fydd yn weithredol ar hyd a lled y rhanbarth i ymateb i'r bylchau wrth recriwtio staff arbenigol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod gwaith rhanbarthol hefyd yn cael ei gyflawni gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol a bod y chwe awdurdod lleol yn gweithio gyda'r Bwrdd lechyd i geisio dod o hyd i ddatrysiad fel y gellir cefnogi plant ag anghenion penodol. Amlygodd nad yw pob plentyn ar y rhestr aros angen cael ei gyfeirio at y Gwasanaeth Niwroamrywiol ac Awtistiaeth ond mae ysgolion yn cyfeirio plant yn syth i'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol gan nad oes ganddynt unrhyw ffordd arall o fynd i'r afael â'r problemau y mae'r plentyn yn ei wynebu. Nododd bod gwaith arloesol yn digwydd yn rhanbarthol i fynd i'r afael â'r rhestr aros.
- Cyfeiriwyd at y Gwasanaethau Dementia a holwyd p'un a oes digon o Nyrsys Seiciatrig Gymunedol (CPN) ar Ynys Môn i gefnogi cleifion a theuluoedd. Dywedodd Mr Tom Regan - Tîm lechyd Meddwl Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod capasiti digonol ar Ynys Môn o'i gymharu â Gwynedd gan fod cyllid ychwanegol wedi cael ei ddarparu ar gyfer y Tîm Cymorth Dwys. Nododd ei bod hi wedi cymryd amser i integreiddio'r system o fewn y Tîm lechyd Meddwl Gymunedol ar Ynys Môn er mwyn cynorthwyo cleifion.
- Nodwyd bod llywodraeth newydd yng Nghaerdydd a holwyd p'un a yw hynny'n rhoi hyder i'r Bwrdd lechyd y bydd gwelliannau'n cael eu gweld. Holwyd beth y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i gryfhau'r berthynas rhwng y Bwrdd lechyd ac awdurdodau lleol. Dywedodd Mr Edwards bod Llywodraeth Cymru wedi dweud mai lechyd yw'r flaenoriaeth a'i bod yn dymuno gweld gwasanaethau'n gwella i gleifion. Nododd ei fod wedi pwysleisio yn ystod ei drafodaethau gyda Gweinidogion o Lywodraeth Cymru bod angen edrych ar lechyd a Lles o bersbectif ehangach gyda sefydliadau partner ar draws y sbectrwm yn hytrach na chanolbwyntio ar ffigurau a data. Roedd o'r farn y dylid darparu cyllid ar y cyd yn hytrach na bod y Bwrdd lechyd a'r Awdurdod Lleol yn darparu

gwasanaethau ar wahân. Codwyd cwestiynau pellach ynglyn ag ariannu iechyd a gofal, a gofynnwyd a fyddai'r Cyngor yn cefnogi hynny. Dywedodd y Prif Weithredwr y dylai cyfrifoldebau statudol pob sefydliad gael eu hariannu'n llawn gan fod mwy a mwy o bwysau'n cael ei roi ar sefydliadau heb gyllid digonol. Roedd o'r farn bod cyfrifoldebau ac atebolrwydd yn gwanhau drwy ddarparu cyllid ar y cyd a dywedodd bod yr awdurdod yn gweithio ar draws y rhanbarth mewn sawl maes ar hyn o bryd.

- Holwyd ynglyn â'r modd y mae'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau a chyfathrebu â chleifion yn y Gymraeg os mai dyma yw ei hiaith ddewisol. Dywedodd Mr Edwards bod y Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 ac uchelgais y Bwrdd yw hyrwyddo'r Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau i gleifion o ddydd i ddydd. Cyflwynir Adroddiad Blynyddol i gyfarfod y Bwrdd Iechyd sy'n amlygu faint o gleifion sy'n dymuno derbyn gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Nododd bod rhaid annog a chefnogi staff i siarad Cymraeg gyda chleifion a theuluoedd.
- Holwyd p'un a oes gan y Bwrdd Iechyd gynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r problemau parcio yn Ysbyty Gwynedd. Dywedodd Mr Paul Andrew bod y Cyfarwyddwr Cyfleusterau wedi creu strategaeth barcio ar gyfer holl ysbytai'r Bwrdd Iechyd. Nododd bod gwasanaeth bysiau ychwanegol bellach ar gael i Ysbyty Gwynedd yn dilyn cyhoeddi'r strategaeth ac mae staff yn cael eu hannog i rannu ceir. Awgrymwyd y dylai cleifion dderbyn cod QR gyda'u llythyr apwyntiad i'w galluogi i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i gyrraedd yr ysbyty. Dywedodd y Prif Weithredwr bod opsiynau parcio ar gael oddi ar y safle a bod rhaid ystyried y cyfleuster parcio a theithio yn y Gaerwen ac yn Llanfairpwll; rhaid newid meddylfryd pobl fel nad ydynt yn ddibynnol ar geir yn unig. Awgrymodd y Prif Weithredwr y gallai Grŵp Partneriaeth Trafnidiaeth Cymru helpu'r Bwrdd Iechyd daclo'r problemau parcio. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Plant a Theuluoedd at gyfarfod rhwng y Dirprwy Weinidog Trafnidiaeth ac Aelodau Aethwy, Arweinydd y Cyngor a Swyddogion ynglyn â gwydnwch y pontydd a thrafnidiaeth gyhoeddus a'r effaith y gall hyn ei gael ar broblemau megis parcio yn Ysbyty Gwynedd. Nododd bod heriau yn Ysbyty Gwynedd gan fod rhai pobl yn parcio yno drwy'r dydd ac yn defnyddio'r maes parcio fel cyfleuster parcio a theithio. Gallai maes parcio aml-lawr fod yn un opsiwn ond byddai'r gost yn sylweddol a byddai'r gwaith adeiladu yn amharu ar y ddarpariaeth parcio tra byddai'r gwaith yn mynd rhagddo. Aeth ymlaen i ddweud na all byrddau iechyd yng Nghymru godi tâl am barcio fel sy'n digwydd yn Lloegr.
- Cyfeiriwyd at y ffaith bod sylw wedi cael ei roi yn y wasg i'r ffaith bod y Bwrdd Iechyd wedi colli traean o'i Dîm Arweinyddiaeth a bod 4 Uwch Reolwr wedi gadael tra bo Archwilio Cymru wedi adrodd y llynedd bod sefydlogrwydd o fewn y Bwrdd. Holwyd p'un a oes sefydlogrwydd o fewn y Bwrdd Iechyd gan fod cleifion yn adrodd nad ydynt wedi gweld unrhyw newid. Dywedodd Mr Dyfed Edwards bod Archwilio Cymru wedi adrodd bod sefydlogrwydd o fewn y Bwrdd Iechyd ac yn bennaf rhwng Aelodau'r Bwrdd ac Aelodau Annibynnol. Cytunodd bod bylchau sylweddol o fewn y Tîm Arweinyddiaeth ac mae problemau recriwtio sydd angen eu datrys gan fod cyflogau'n uwch yn Lloegr ac mae uwch aelodau staff yn dueddol o aros yng Nghymru am gyfnodau byr yn unig. Nododd bod rhaid creu Bwrdd Iechyd sy'n caniatáu i staff ddatblygu gyrfa a phenodi pobl leol sy'n fwy tebygol o aros gyda'r Bwrdd Iechyd am gyfnod hwy. Dywedodd yr Aelod Portffolio Plant a Theuluoedd bod Bwrdd Pobl a Diwylliant y Bwrdd Iechyd yn ystyried y problemau recriwtio a chynllunio olyniaeth.

- Holwyd p'un a yw'n anodd recriwtio Nyrsys Ardal. Dywedodd Mr Paul Andrew mai'r Pennaeth Nyrsio sy'n gyfrifol am y Nyrsys Ardal ac mae heriau sylweddol oherwydd salwch ac absenoldeb mamolaeth. Nododd bod hyfforddiant staff yn cael ei ddarparu i'r Tîm Nyrsys Ardal ar hyn o bryd ac mae Metron Datblygu Staff yn gweithio'n agos gyda'r tîm. Mae'r Dashfwrdd gweithle wedi cael ei wella i rannu gwybodaeth ac mae'r cydweithio gyda'r Tîm Gwydnwch Cymunedol i'w groesawu. Codwyd cwestiynau pellach ynglyn â'r pwysau ar wasanaethau staffio eraill pan fo'n rhaid i staff gamu i'r adwy i fynd i weld cleifion am nad oes Nyrsys Ardal ar gael. Dywedodd Mr Paul Andrew bod symud staff i rolau eraill yn heriol yn enwedig ar benwythnosau ond mae'n rhaid mynd i'r afael ag anghenion cleifion ac mae staff yn cael eu hanfon i gyflawni gwahanol rolau.
- Holwyd p'un a oedd treulio 24 awr yn yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys wedi dod yn norm erbyn hyn gan fod adroddiadau di-ri o bobl yn gorfod eistedd mewn adrannau damweiniau ac achosion brys am oriau neu aros y tu allan mewn ambiwlans. Dywedodd Mr Dyfed Edwards bod cleifion yn aros mewn adrannau damweiniau ac achosion brys am gyfnod hwy o'i gymharu â 2/3 blynedd yn ôl. Dywedodd bod pobl yn defnyddio adrannau Damweiniau ac Achosion Brys pan ddylent fod wedi mynd i weld eu Meddyg Teulu. Dywedodd Mr Paul Andrew bod pobl dan yr argraff bod yr adran Damweiniau ac Achosion Brys yn wasanaeth meddygfa 24 awr ac mae'n rhaid newid y disgwyliad hwn fel nad yw'n dod yn norm. Dywedodd ei bod hi'n annerbyniol bod cleifion yn gorfod aros mewn Ambiwylansys y tu allan i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys am oriau ac mae'r Bwrdd lechyd yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem drwy gyfathrebu â phobl a'u haddysgu bod cyfleusterau eraill ar gael i ddelio ag anhwylderau cyffredinol yn hytrach na'u bod yn mynd i'r adran Achosion Brys. Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu ei bod yn dymuno gweld y Bwrdd lechyd yn darparu gwasanaethau cymunedol ychwanegol sydd yn anodd gan fod gan y Bwrdd lechyd ddiffyg o £43m.
- Nodwyd ei bod hi'n braf clywed bod amseroedd aros mewn ambiwlansys y tu allan i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys wedi gwella. Holwyd beth mae'r Bwrdd lechyd wedi'i gyflawni i wella'r sefyllfa a sut mae'r amseroedd trosglwyddo yn Ysbyty Gwynedd yn cymharu â'r ddau ysbyty arall yng ngogledd Cymru a sut mae'r Bwrdd lechyd yn cymharu ag ysbytai mewn rhannau eraill o Gymru. Dywedodd Mr Paul Andrew nad yw'r brig mewn cleifion wedi cynyddu yn unol â'r disgwyl a bod cyfarfodydd atebolrwydd yn cael eu cynnal gyda'r Tîm Gofal Brys sy'n gyfrifol am adrannau Damweiniau ac Achosion Brys er mwyn gwella'r system o fewn yr adrannau hyn. Nododd bod yr heriau yn gysylltiedig â throsglwyddo cleifion i wahanol ysbytai yn amrywio ar wahanol adegau a'i bod hi'n anodd cael cymhariaeth oherwydd lleoliad yr ysbytai. Aeth ymlaen i ddweud bod gan y Gwasanaethau Ambiwylans gyfnod trosglwyddo o 45 munud yn genedlaethol. Nodwyd bod yr ystadegau ar drosglwyddo cleifion ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.
- Gofynnwyd a oes tystiolaeth bod pobl o Loegr yn dod i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Ngogledd Cymru. Dywedodd Mr Dyfed Edwards y byddai'n edrych i weld a oes tystiolaeth bod pobl yn croesi'r ffin o Loegr i adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yng Ngogledd Cymru. Nododd bod adrannau damweiniau ac Achosion Brys dros y ffin hefyd yn wynebu problemau a bod pobl yn gorfod aros oriau am driniaeth. Nodwyd bod pobl yn defnyddio adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Gwynedd pan maent ar wyliau ac yna maent yn cael eu galw'n ôl i Ogledd Cymru am driniaeth bellach. Mynegwyd y

dylai'r cleifion hyn gael eu trosglwyddo i'w hysbyty lleol am driniaeth bellach yn hytrach na bod pobl leol yn gorfod aros. Dywedodd Mr Andrew bod 12 claf o Loegr yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ar hyn o bryd a bod pob ymdrech yn cael ei wneud i'w trosglwyddo'n ôl i'w hysbytai lleol.

- Holwyd ynglyn â'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith yn Ysbyty Penrhos Stanley yng Nghaergybi a p'un ai y gellid defnyddi'r ysbyty i liniaru rhai o'r problemau yn adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Gwynedd. Dywedodd Mr Paul Andrew bod y gwaith yn Ysbyty Penrhos Stanley wedi cael ei gwblhau erbyn hyn. Nododd bod Robot Fferylliaeth ar fin cael ei osod yn yr ysbyty er mwyn rhoi cyfle i gleifion gasglu presgripsiynau. Nododd bod gwaith arloesol yn cael ei wneud yn yr ysbyty ac mae staff o Brifysgol Bangor yn gweithio ar y safle'n rheolaidd. Roedd y Prif Weithredwr o'r farn bod angen rhyw fath o ymgrych i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r gwasanaethau sydd ar gael yn Ysbyty Penrhos Stanley er mwyn lliniaru'r pwysau ar adran Damweiniau ac Achosion Brys Ysbyty Gwynedd.
- Gofynnwyd am ddiweddariad ar y Ganolfan Feddygol Arfaethedig yng Nghaergybi. Dywedodd Mr Dyfed Edwards bod y Bwrdd lechyd yn awyddus i ddatblygu Hwb Meddygol yng Nghaergybi a bod y trafodaethau'n parhau gyda gwahanol asiantaethau a'r Cyngor. Nododd y byddai'n gohebu â'r Aelodau unwaith y bydd y manylion ar gael. Dywedodd y Prif Weithredwr bod pryderon ynglyn â'r diffyg cynnydd wrth geisio datblygu Canolfan Feddygol yng Nghaergybi. Dywedodd bod wir angen cyfleuster o'r fath yng Nghaergybi. Nododd bod yr Awdurdod yn awyddus i gydweithio gyda'r Bwrdd lechyd. Awgrymodd y dylid cyflwyno cais cynllunio er mwyn ceisio dod o hyd i gyllid cyfalaf pan fydd cyfle ar gael.
- Gofynnwyd sut mae'r Bwrdd lechyd yn casglu'r ffigurau boddhad cwsmer drwy'r Meddygfeydd a p'un a yw'r un cwestiynau'n cael eu gofyn ym mhob meddygfa. Dywedodd Mr Paul Andrew bod cysondeb yn y modd y caiff data boddhad cwsmer ei gofnodi gan y Bwrdd lechyd a'r modd y caiff gwybodaeth ei chasglu a'i rhannu gydag Aelodau'r Cyngor.
- Cyfeiriwyd at 13 o ddigwyddiadau "byth" a adroddwyd ledled Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dros y 12 mis diwethaf. Holwyd p'un a oes data ar gael ynglyn â'r digwyddiadau "byth" yn Ysbyty Gwynedd a p'un a ydynt yn uwch yn y Bwrdd lechyd yma na gweddill y Byrddau lechyd. Dywedodd Mr Dyfed Edwards nad oedd ganddo'r wybodaeth yma wrth law ond y byddai'n gallu rhannu gwybodaeth ynglyn â hanes a chefnidir y digwyddiadau hyn a darparu dadansoddiad i'r Aelodau maes o law.
- Holwyd ynglyn â'r posibilrwydd o ailagor yr Ysbytai Bwthyn er mwyn lleihau'r pwysau ar Ysbyty Gwynedd. Dywedodd Mr Edwards ei bod hi'n bwysig cael adnoddau cymunedol i drin cleifion ond mae cymaint o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o'r ysbyty ac mae hyn yn achosi problemau ac yn atal llif cleifion i mewn ac allan o'r ysbyty ac yn achosi problemau ym mhob adran Damweiniau ac Achosion Brys. Cyfeiriodd at Dîm Gofal Uwch Môn sy'n trin pobl yn y cartref yn debyg iawn i'r gofal a fyddai wedi cael ei ddarparu yn yr Ysbytai Bwthyn flynyddoedd yn ôl. Dywedodd Mr Paul Andrew bod gwaith wedi cael ei gwblhau gyda darparwyr gofal allanol dros y 6 i 8 mis diwethaf. Mae'r darparwyr allanol wedi gweithio ledled y Bwrdd lechyd a gyda'r 6 awdurdod lleol ac maent wedi cynghori'r Bwrdd bod gormod o bwysau ar y llwybr cleifion. Mae angen ymyrraeth glir er mwyn rhyddhau cleifion o'r ysbyty cyn gynted â phosib er mwyn

lleihau'r risg o haint a phroblemau symudedd ar ôl gorwedd mewn gwely am gyfnodau maith.

- Holwyd p'un a yw'r Bwrdd Iechyd yn codi tâl ar gleifion o dramor yn dilyn triniaeth. Dywedodd Mr Paul Andrew bod tâl yn cael ei godi ar ymwelwyr o dramor a bod adran gyllid y Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am hynny.
- Cyfeiriwyd at y cynnydd yn nifer y bobl â salwch iechyd meddwl ac achosion o hunanladdiad. Holwyd p'un a oes cynnydd mewn achosion ar Ynys Môn. Dywedodd Mr Tom Regan fod adolygiad thematig ar y gweill i'r achosion o hunanladdiad a gofnodwyd y llynedd. Yn unol â'r tueddiadau mewn blynyddoedd blaenorol, ledled Cymru dynion ganol oed sydd fel arfer yn cyflawni hunanladdiad yng Nghymru ac mae gwaith ar y gweill i edrych ar y tueddiadau. Nododd bod pobl sydd ddim yn adnabyddus nac wedi cofrestru â gwasanaethau iechyd meddwl yn dioddef a'u bod mewn perygl o gyflawni hunanladdiad. Mae'r Cydlynnydd Rhanbarthol wrthi'n datblygu protocol. Cyfeiriodd at y gwasanaeth 111+2, a sefydlwyd 3 blynedd yn ôl sydd ar gael i bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl.
- Cyfeiriwyd at yr Ysgol Feddygol ym Mangor a'r ymgyrch i gael Ysgol Ddeintyddol yn y ddinas hefyd. Holwyd ynglyn â'r posibilrwydd o gael Ysgol Ddeintyddol yn yr ardal. Dywedodd Mr Dyfed Edwards bod yr Ysgol Feddygol ym Mhrifysgol Bangor yn llwyddiannus a bod cydweithio da rhwng yr Ysgol Feddygol a'r ysbytai o safbwynt lleoliadau. Dywedodd bod rhaid cefnogi myfyrwyr i ystyried meysydd arbenigol o fewn y Bwrdd Iechyd h.y. Meddygon Teulu, Llawfeddygon ayb. Fodd bynnag, mae disgwiliadau pobl wedi newid ac erbyn hyn mae staff eisiau cael cydbwysedd gwell rhwng bywyd a gwaith ac felly maent yn dewis gweithio'n rhan amser. Dywedodd ei fod yn gobeithio y byddai Ysgol Ddeintyddol yn dod i'r ardal.
- Gofynnwyd pwy sy'n gyfrifol ac yn atebol am y Dashfwrdd a phwy sy'n ei ariannu. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd yn rhannu'r cyfrifoldeb am y Dashfwrdd a bod cyfarfod yn cael ei gynnal bob dydd Mercher i adolygu achosion. Weithiau mae angen help gan wasanaethau eraill o fewn y Cyngor h.y. Gwasanaethau Tai. Mae'r gwasanaethau a ddarperir drwy'r Dashfwrdd yn cael ei hariannu gan bwy bynnag sy'n gyfrifol am achosion penodol ac felly mae'n amrywio. Dywedodd Mr Paul Andrew bod cytundeb rhannu data'n bodoli rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod i sicrhau bod gwasanaethau gwell yn cael eu darparu i drigolion.

PENDERFYNWYD derbyn y cyflwyniad gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd.

4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2026/2027

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Sgriwtini, oedd yn amlinellu Blaen Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2026/2027, i'r Pwyllgor ei ystyried.

PENDERFYNWYD:-

- Cytuno'r fersiwn gyfredol o'r blaen rhaglen waith ar gyfer 2026/2027;
- Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r blaen raglen waith.

**Y CYNGHORYDD SONIA WILLIAMS
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

Partneriaethau Strategol - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Strategic Partnership – North Wales Fire and Rescue Service



13.10.2026

Anthony Jones

Prif Swyddog Tân Cynorthwyol
Assistant Chief Fire Officer

Paul Kay

Pennaeth Diogelwch Tân
Head of Fire Safety

Eilian Roberts

Rheolwr Cyflenwi Gwasanaeth
Service Delivery Manager

ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

Eitem 4 ar y Rha

Ein Gwasanaeth

Our Service



Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
North Wales Fire and Rescue Authority

Model Ymateb Presennol:

44 o orsafoedd:


- 3 Gorsafoedd ddyletswydd 24 awr: Wrecsam, Glannau Dyfrdwy a Rhyl
- 5 Gorsafoedd criwiau dydd: Bae Colwyn, Llandudno, Bangor, Caernarfon a Caergybi
- 36 gorsaf ar alwad
- 2 griw Nucleus: Dolgellau a Phorthmadog
- 2 Gwylfa o ddiffoddwyr tân system ddyletswydd wledig llawn amser

Tudalen 22

Current Response Model:

44 Stations in total:

- 3 Twenty four hour duty stations: Wrexham, Deeside & Rhyl
- 5 Day crewed stations: Colwyn Bay, Llandudno, Bangor, Caernarfon & Holyhead
- 36 On-call, retained duty system stations
- 2 Nucleus Crews: Dolgellau and Porthmadog
- 2 Watches of Wholetime duty system rural firefighters



Tebygolrwydd cyfartalog y bydd lleoliad yn cael ymateb yn ystod y dydd o fewn 20 munud ar ôl rheoli ymyrraeth
Average probability of a location receiving a daytime response within 20 minutes after intervention management

Ein Hargaeledd – Ynys Môn

Our Availability - Anglesey



Ynys Môn: Argaeledd yn sefydlogi, a'r gweithlu wrth gefn yn tyfu



- ✓ Newidiadau llawer llai yn argaeledd yr offer tân yn ystod 2026 nag a welwyd yn 2025



- ✓ Mae nifer y diffoddwyr tân wrth gefn wedi cynyddu o 71 i 82 ers mis Ebrill 2026



- ✓ Cynnydd o **15.5%** yn nifer y staff a **11.7%** mewn cyfwerth ag amser llawn (CALI)



- ✓ **40** o ymgeiswyr ychwanegol ar hyn o bryd yn symud ymlaen drwy'r broses recriwtio ar wahanol gamau



Anglesey : Availability stabilising, and On-Call workforce growing



- ✓ Much smaller changes in appliance availability during 2026, than seen in 2025



- ✓ Staffing increased from 71 to 82 on-call firefighters since April 2026



- ✓ **15.5%** increase in headcount and **11.7%** increase in FTE




- ✓ An Additional **40** applicants currently progressing through recruitment processes (at various stages)

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Service



Tudalen 24



ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING


www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales



Lleoliadau'r safleoedd risg uchel o fewn ardal GTAGC


Locations of the high-risk sites within the NWFRS area

Tudalen 25



Ein Digwyddiadau


Our Incidents



Tudalen 26

Digwyddiadau Ynys Môn

Anglesey Incidents



Nifer o ddigwyddiadau ar gyfartaledd 5 mlynedd: Ynys Môn

- Holl danau: 177
- Galwadau Diangen: 287
- Gwasanaeth Arbennig: 90
- Cyfanswm Digwyddiadau: 555

Anglesey: 5 Year Average Incident Demand

- All Fires: 177
- Final Class False Alarm: 287
- Special Service: 90
- Total Incidents: 555

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

North Wales Fire and Rescue Service




06/06/23:
Gaerwen Arms, Gaerwen



22/08/25:
Mynydd bodafon



17/07/26:
Ty Felin, Holyhead



23/09/26:
Llanfaelog



17/12/23 :
Shirehall, Llangefni



06/03/26:
**Pwll y Gynau Isaf,
Llanerchymedd**



11/01/26:
Elim/Peugeot, Llangefni



06/08/25:
Pen Cefn, Rhosmeirch



Tudalen 29



Digwyddiadau Tanau Gwyllt dros ardal GTAGC

Wildfire Incidents over NWFRS's area

Bu'r 40 digwyddiad tân gwyllt a fynychwyd yn ystod 2025/26:

🕒 Bu'r digwyddiadau tanau gwyllt yn weithredol am gyfanswm o 935 awr.

🚒 332 nifer y cerbydau a anfonwyd i danau gwyllt.

👤 1,416 nifer o ddiffoddwyr tân a anfonwyd i ddigwyddiadau tanau gwyllt

The 40 wildfire incidents attended during 2025/26:

🕒 The wildfire incidents were active for a combined total of 935 hours.

🚒 332 Vehicle mobilisations to Wildfires.

👤 1,416 firefighter deployments to wildfire incidents.



Dim Tannau Yn Unig

More Than Just Fires

Tudalen 31



Risgiau Technoleg sy'n Dod i'r Amlwg

Emerging Technology and Climate Risks



Llifogydd: Mae gaeafau gwlypach a stormydd dwysach yn cynyddu'r risg o lifogydd.

Flooding: Wetter winters and more intense storms raise flood risk.

Poethder eithafol: Gallai hafau poethach a sychach wneud tonnau gwres ar lefel 2018 yn debygol bob yn ail flwyddyn erbyn 2050.

Extreme Heat & Drought: Hotter, drier summers could make 2018-level heatwaves likely every other year by 2050.

Lefel môr yn codi: Bydd lefelau'r môr sy'n codi yn gwaethygu erydiad ac yn bygwth cymunedau ac isadeiledd arfordirol, gan gynnwys yr A55.

Sea-Level Rise: Rising seas will worsen erosion and threaten coastal communities and infrastructure, including the A55.

Stormydd a Gwyntoedd cryf: Mae mwy o stormydd ag enwau yn cynyddu'r risgiau i adeiladau, seilwaith a thrafnidiaeth.

Storms & High Winds: More named storms increase risks to buildings, infrastructure and transport.

Tudalen 32



Diogelwch tân

Fire Safety



Tudalen 33



ATAL AMDDIFFYN YMATEB
PREVENTING PROTECTING RESPONDING

www.tangogleddcymru.llyw.cymru
www.northwalesfire.gov.wales

Cadw Pobl yn Saff yn eu Cartrefi yn Ynys Môn

Keeping People Safe in Their Homes in Anglesey




Cynnydd o 7.0% rhwng
24/25 a 25/26

Cynnydd o 161% dros y 5
mlynedd diwethaf

Increase of 7.0% between
24/25 and 25/26

Increase of 161% over the
last 5 years

Tudalen 34





Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Partneriaeth cryfach
Gweithlu sy'n barod i'r dyfodol
Cymunedau mwy diogel
Stronger partnerships
Future-ready workforce
Safer communities

Tudalen 35

Ased strategol i Ogledd Cymru A strategic asset for North Wales



Aliniad Strategol

Cefnogi blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a gwasanaeth cyhoeddus



Diogelwch y Cyhoedd a Gwydnwch

- Paratoi ar gyfer risgiau sy'n dod i'r amlwg
- Cryfhau diogelwch cymunedol
- Gwellu parodrwydd amlasiantaethol



Hinsawdd a Chynalladwyedd

- Hyfforddi ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
- Dyluniad ynni sero net
- Lleihau effaith amgylcheddol



Y Gwellthlu a Llesiant

- Cyfleusterau modern a chynhwysol
- Cefnogi iechyd a lles diffoddwyr tân
- Gwellu recriwtio a chadw staff



Gwerth am Fuddsoddlad Cyhoeddus

- Ased seilwaith hirdymor
- Arbedion blynyddol o £300,000
- Buddsoddiad yn GTAGC

Strategic Alignment

Supporting national, regional and public-service priorities



Public Safety & Resilience

- Prepare for emerging risks
- Strengthen community protection
- Enhance multi-agency readiness



Climate & Sustainability

- Train for climate incidents
- Net Zero energy design
- Reduce environmental impact



Workforce & Wellbeing

- Modern, inclusive facilities
- Support firefighter health
- Improve recruitment & retention



Value for Public Investment

- Long-term infrastructure asset
- £300k annual savings
- NWERS investment

Trosolwg Ariannol GTAGC 2025-26

NWFRS Financial Overview 2025-26



2025/26 Financial Outturn (£'000)

£52,389

Total contributions

£121

Reported surplus

£51,788


Total levy

£5,008


Capital Expenditure

£204


Capital Grant and Contributions



Property Plant and Equipment Value at 31 March 2026 (£'000)



Fire Service Levy Contributions by North Wales Local Authorities (2026/27)



Cost y GTAGC fesul person yr wythnos yn 2025/26 oedd £1.44.

NWFRS cost per person per week in 2025/26 was £1.44



£75

Cost per person in North Wales to cover the fire service levy for 2025/26

28 Days

Average days to pay invoices during 2025/26

7,067

Number of invoices paid during 2025/26

19,374

Safe and well checks completed during 2025/26



Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

Gweithio gyda'n gilydd i ddiogelu ein cymuned
Working together to protect our community

Cwestiynau? **Questions?**

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn

Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	13/10/2026
Pwnc:	Partneriaeth Diogelwch Cymunedol – Adroddiad Blynyddol
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Sonia Williams

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Cynghorydd Carwyn Elias Jones	Aelod portffolio ar gyfer Diogelwch Cymunedol
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Daron Owens	Uwch Swyddog Gweithredol
Rhys Hughes	Dirprwy Prif Weithredwr

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn bob blwyddyn er mwyn cyflwyno trosolwg o weithgareddau.

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):
 Nodi cynnwys yr adroddiad a'r dogfennau atodol, a nodi a yw'r Pwyllgor Craffu yn cefnogi'r blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Sicrhau cymunedau iachach, mwy diogel a thecach trwy gynnig amrywiaeth o wasanaethau ataliol, gwella a chefnogol, mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill o'r un anian.

5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1. Mesur blaenoriaethau'r Bartneriaeth (sy'n seiliedig ar broses asesu anghenion lleol), a nodi unrhyw anghenion lleol newydd neu ychwanegol
2. Asesu effeithiolrwydd y bartneriaeth statudol yn unol â disgwyliadau'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998
3. Gwerthuso effaith y cynllun gweithredu yn erbyn y meysydd blaenoriaeth er budd cymunedau Ynys Môn

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

CEFNDIR:

1. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgareddau'r Bartneriaeth dros yr 12 mis diwethaf ers i ni gyflwyno i'r Panel Sgriwtini ddiwethaf ym mis Hydref 2025.
2. Mae dyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol yn unol â Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 i weithio mewn partneriaeth gyda'r Heddlu, y Gwasanaeth Iechyd, y Gwasanaeth Prawf a'r Gwasanaeth Tân ac Achub. Dyma'r prif asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae yna hefyd bartneriaid ychwanegol megis y Bwrdd Cynllunio Ardal (camddefnyddio sylweddau), Addysg, Cyfiawnder Ieuenctid a Cydlyniant Cymunedol.
3. Fel aelod statudol o'r Bartneriaeth, mae'n bwysig bod CSYM yn cael ei gynrychioli'n briodol. Cyflawnir hyn drwy bresenoldeb yr aelod lleol presennol gyda phortffolio Diogelwch Cymunedol, sef Carwyn Elias Jones, a'r swyddogion gyda chyfrifoldeb am y gwaith, sef Rhys Hughes (Dirprwy Prif Weithredwr) a Ned Michael (Pennaeth Tai).
4. **Yn wreiddiol, galwyd partneriaethau diogelwch cymunedol yn bartneriaethau trosedd ac anhrefn, ac er bod yr enw wedi'i newid, nid yw'r cyfrifoldebau ac maent yn parhau i fod - trosedd ac anhrefn, camddefnyddio sylweddau, lleihau aildroseddu.**
 - -Dan y Ddeddf Trais Domestig, Troseddau a Dioddefwyr 2004, mae gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ddyletswydd statudol hefyd i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs). Mae'r rhain yn adolygiad o'r amgylchiadau pan fo marwolaeth person 16 oed neu hŷn wedi, neu'n ymddangos ei bod wedi deillio o drais, cam-drin neu esgeulustod gan— (a) person yr oedd yn perthyn iddo neu wedi bod mewn perthynas bersonol agos, neu (b) yn aelod o'r un aelwyd ag ef ei hun, gyda golwg ar nodi'r gwersi i'w dysgu o'r farwolaeth. Yng Nghymru, o 1 Hydref 2024 ymlaen, caiff y ddyletswydd statudol hon ei chyflawni drwy'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR), sy'n ymgorffori Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHRs) o fewn yr un broses adolygu a ddefnyddir bellach ar gyfer pob adolygiad diogelu yng Nghymru.
 - -Yn dilyn diwygiadau i'r Ddeddf Trosedd ac Anhrefn o ganlyniad i'r Ddyletswydd Trais Difrifol newydd, mae gennym hefyd gyfrifoldeb i atal a lleihau trais difrifol.
5. Mae presenoldeb da bob amser yn y cyfarfodydd chwarterol. Mae'r Partneriaid a'r Aelodau Lleol sy'n mynychu'r cyfarfodydd yn cyfrannu'n gadarnhaol. Rhennir data chwarterol ar ffigyrau trosedd a diweddariadau chyflawniad y cynllun ym mhob cyfarfod. Mae pob aelod cyfrifol o'r bartneriaeth yn cyfrannu'n ariannol at sefydlu dadansoddwr partneriaeth, fel y gellir darparu data rheolaidd i gefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
6. Mae gweithio rhwng partneriaid yn sylfaenol i ddiogelwch cymunedol. Y prif reswm dros gyflwyno PDC yn ôl ym 1998, oedd sicrhau bod trosedd ac anhrefn yn cael ei ystyried yn **'broblem i bawb'** ac nid i'r Heddlu yn unig.

7. Nid ydym yn comisiynu unrhyw brosiectau neu wasanaethau yn uniongyrchol (dim ond y DHRs) **gan nad oes unrhyw arian yn cael ei ddyrannu yn barhaol i Ddiogelwch Cymunedol. Mae cyllid ar gyfer prosiectau penodol yn ddibynnol ar gyfleoedd grant a dim ond ar gael trwy wneud cais amdanynt.**

BLAENORIAETHAU/DOGFENNAU'R BARTNERIAETH AR GYFER CRAFFU:

Mae'r bartneriaeth yn gweithio yn unol â chynllun blynyddol. Ynghlwm mae cynllun 2026-28, sy'n seiliedig ar flaenoriaethau **rhanbarthol** y Strategaeth Bwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel:

- Atal Troseddau ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Mynd i'r Afael â Trais Difrifol
- Mynd i'r Afael â Throseddau Cyfundrefnol Difrifol
- Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

GWAITH WEDI'I GWBLHAU YN YSTOD 2025/26

1. Datblygwyd y cynllun blynyddol yn unol a blaenoriaethau y Bwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel. Mae cynllun 2026-28 (ynghlwm) yn nodi'r gweithgaredd yr oedd y Bartneriaeth am ei gyflawni yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
2. Rhannwyd ffigyrau trosedd yn chwarterol drwy adroddiad perfformiad a baratowyd gan ddadansoddwr yr Heddlu, fel y gellir trafod unrhyw dueddiadau a gweithgaredd ychwanegol sydd ei angen.
3. Fel nodir uchod, mae gennym ddyletswydd statudol o dan y Ddeddf Trais Domestig, Trosedd a Dioddefwyr 2004 i sefydlu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR). Yn anffodus, roedd 3 DHR ar y gweill eleni a derbyniwyd 2 gyfeiriad am adolygiadau newydd. Mae'n anochel bod gan y gwaith hwn oblygiadau sylweddol a pharhaus o ran adnoddau. Ers Hydref 2024, yng Nghymru mae DHRs yn cael eu cynnwys o fewn y broses newydd Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS). O hyn ymlaen, byddwn yn cydweithio gyda'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol gyda'm dyletswyddau DHR.
4. Crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd eleni:
 - a) Gweithredu'r cynllun Diogelwch Cymunedol blynyddol yn barhaus ac adrodd yn chwarterol i'r Bwrdd rhanbarthol Gogledd Cymru Fwy Diogel.
 - b) Cyhoeddwyd y Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru ym mis Ionawr 2024, mewn ymateb i'r Ddyletswydd Trais Difrifol cenedlaethol. Mae'r Ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Rydym wedi bod yn rhan o'r gwaith strategaeth ranbarthol drwyddo draw.
 - c) Fel rhan o'r Strategaeth Trais Difrifol ranbarthol, derbyniwyd y Bartneriaeth £77,500 ar gyfer prosiectau ataliol yn ein rhanbarth. Eleni, mae chwe phrosiect gwahanol yn cael eu cynnal. Yn Ynys Môn mae hyn yn cynnwys:

- Sesiynau 'Peidiwch â Dwyn Fy Nyfodol' a gynhelir mewn ysgolion gan RASASC Cymru (Rape and Sexual Abuse Support Centre). Mae hon yn ymgyrch addysgol, sy'n codi ymwybyddiaeth o gyffredinolrwydd eang trais rhywiol mewn cymdeithas, ac yn bwysicaf oll, sut y gallwn ddechrau newid agweddau ac ymddygiad.
 - Gweithredu Dros Blant - Rhaglen CCE (*child criminal exploitation*) tair-haen sy'n cyfuno sesiynau ieuencid wedi'u targedu, cynulliad profiad byw, ac uwchsgilio staff i helpu pobl ifanc sydd mewn perygl i wneud dewisiadau mwy diogel a pharhau i ymgysylltu ag addysg. Bydd datblygiad staff yn cael ei gefnogi trwy sesiynau gwybodaeth galw heibio hygyrch, gan alluogi gweithwyr proffesiynol i nodi ac ymateb yn well i gamfanteisio. Mae'n cefnogi pobl ifanc sydd mewn perygl gyda gwybodaeth, sgiliau a rhwydweithiau dibynadwy i wneud dewisiadau mwy diogel a pharhau i ymgysylltu ag addysg. Mae sesiynau'n archwilio perthnasoedd iach, pwysau gan gyfoedion, a chynllunio diogelwch gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar drawma ac sy'n cael ei arwain gan ieuencid. Mae cynulliadau'n codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo cefnogaeth gan gyfoedion.
 - Môn Actif - Cyflwyno Rhaglen Mynediad Ieuencid wedi'i thargedu ar gyfer pobl ifanc 11–17 oed sy'n agored i niwed ar Ynys Môn, ochr yn ochr â chefnogaeth oedran cynradd, i helpu ysgolion i atal trais difrifol ac ehangu darpariaeth ieuencid drwy gydol y flwyddyn gyda Phecynnau Ieuencid. Ymyrraeth gynnar ac atal sylfaenol ar gyfer pobl ifanc a nodwyd fel rhai sydd mewn perygl o ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camfanteisio, neu drais. Cefnogodd y cynllun peilot cychwynnol 60 o bobl ifanc 11–17 oed gyda "Phecynnau Ieuencid" a ariannwyd gwerth £190 yr un, gan ddarparu mynediad i: Dosbarthiadau ffitrwydd, cyfleusterau campfa, Pyllau Nofio, darpariaeth hamdden strwythuredig. Derbyniwyd atgyfeiriadau gan rwydwaith eang - Ysgolion, Gwasanaethau Ieuencid, Cyfiawnder Ieuencid, Gwasanaethau Iechyd, Sefydliadau'r Trydydd Sector, Rhieni/Gofalwyr.
 - Gwasanaeth Plant a Theuluoedd Môn - Cyflwyno rhaglen atal ac ymyrraeth gynnar wedi'i thargedu i leihau'r risgiau ac effaith camfanteisio a meithrin perthynas amhriodol sy'n effeithio ar blant, pobl ifanc ac oedolion (gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal). Bydd y rhaglen yn darparu codi ymwybyddiaeth, addysg, hyfforddiant i weithwyr proffesiynol, sesiynau i rieni a gofalwyr, a gwaith uniongyrchol gyda phobl ifanc, ochr yn ochr â mentora wedi'i thargedu a ddarperir gan ymarferydd â phrofiad personol i feithrin gwydnwch a lleihau bregusrwydd.
 - Yn gynharach yn y flwyddyn gyda chyllid y llynedd datblygwyd ymgyrch ymwybyddiaeth ynghylch gwerthu 'vapes' anghyfreithlon a chamfanteisio ar blant, er mwyn cynyddu adrodd a rhannu gwybodaeth.
- d) Cefnogodd y Bartneriaeth y digwyddiad amlasiantaethol 'Byddwch yn glyfar, peidiwch â chychwyn' y cynhaliwyd yn Ysgol Uwchradd Caergybi yn Chwefror. Mynychodd oddeutu 250 o bobl ifanc rhwng 13 ac 16 oed y gweithdai rhyngweithiol a oedd yn cynnwys sgysiau agored am getamin a'r canlyniadau posib, mewn amgylchedd diogel a chefnogol.
- e) Rydym wedi parhau i fod yn aelodau gweithredol o Fwrdd Diogelu Corfforaethol y Cyngor, ac wedi gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Gwasanaeth ar gyfer Diogelu a

Sicrhau Ansawdd ar faterion diogelu fel Atal, Trais Domestig a Throseddau Cyfundrefnol Difrifol.

- f) Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Arweinydd Rhanbarthol ar gyfer Hunanladdiad a Hunan-niwed o fewn y Gwasanaeth Iechyd. Mae gwaith sylweddol yn parhau ar lefel ranbarthol, gan gynnwys gweithredu Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru, ymateb i leoliadau sy'n peri pryder a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael. Yn ogystal, datblygwyd strategaeth leol ar gyfer Ynys Môn, yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Strategaeth Genedlaethol newydd.
- g) Yn dilyn trafodaethau gyda Chymorth i Ferched Cymru ynghylch cefnogi goroeswyr cam-drin domestig byddar, trefnodd y Bartneriaeth hyfforddiant Iaith Arwyddion Prydain (BSL) trwy Goleg Llandrillo ar gyfer staff a'n sefydliadau cam-drin domestig lleol. Bydd adborth yn cael ei gasglu gan y mynychwyr i ddeall effaith yr hyfforddiant ac unrhyw ofynion pellach, a bydd sesiynau ychwanegol yn cael eu trefnu yn seiliedig ar yr anghenion a nodwyd.
- h) Trefnwyd hyfforddiant 'Ymyrryd gan Wylwyr' i staff y Cyngor yn Hydref 2026. Rhaglen gan Lywodraeth Cymru yw hyn, gyda'r bwriad i roi'r sgiliau a'r hyder i staff y Cyngor i ymyrryd yn ddiogel mewn sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol. Gall hyn fod gyda dieithryn, cydweithiwr neu gyfaill. Mae hyn yn rhan o'r gweithgaredd ar gyfer diwrnod Rhuban Gwyn.
- i) Hefyd yn rhan o baratodau ar gyfer diwrnod Rhuban Gwyn, mae'r Bartneriaeth wedi cydweithio a Chyngor Wrecsam i ddatblygu 'Siarter Diogelwch y Nos i Ferched'. Menter yw hon i alluogi busnesau economi'r nos i flaenoriaethu diogelwch menywod. Bwriedir lansio'r Siarter yma yn lleol yn ystod digwyddiadau'r Diwrnod Rhuban Gwyn yn Nhachwedd.

7. Asesiadau effaith

7.1 Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do

☒ Naddo

Os naddo, eglurwch pam: Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un o'r grwpiau a warchodir

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar unrhyw un sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Nid yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys cyfeiriad at unrhyw ddatblygiadau, y tybir iddynt gael effaith anffafriol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor -

Dim / ddim yn berthnasol

8. Goblygiadau ariannol

Nid yw'r adroddiad yn nodi unrhyw oblygiadau ariannol penodol i'r Awdurdod Lleol

9. Atodiadau

1. Cynllun Diogelwch Cymunedol 2026-28

10. Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Daron Owens – Uwch Swyddog Gweithredol

Partneriaeth Diogelwch
Cymunedol Gwynedd & Môn



Gwynedd & Anglesey
Community Safety Partnership

Cynllun Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn 2026-28

Cefndir

Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn grŵp o sefydliadau sy'n gweithio gyda'i gilydd i edrych ar sut orau i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn. Mae'r gofyn i gael partneriaeth o'r fath mewn lle ar lefel leol yn rhan o'r gyfraith, sef Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan nifer o sefydliadau ran i'w chwarae o fewn y bartneriaeth, gan gynnwys yr awdurdod lleol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, y gwasanaeth tân ac achub a'r bwrdd iechyd.

Mae gennym gyfrifoldebau dan Ddeddf 1998 am nifer o feysydd, gan gynnwys – lleihau trosedd ac anhrefn, lleihau aildroseddu, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Yn ogystal, mae dyletswydd arnom i gomisiynu adolygiadau Lladdiad Domestig mewn rhai amgylchiadau penodol.

Bydd ein cynllun yn cyflawni yn erbyn blaenoriaethau Strategaeth Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Fwy Diogel, sef:

1. Atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Mynd i'r afael â throseddau treisgar
3. Mynd i'r afael â throseddau trefniadol difrifol
4. Diogelu ac adeiladu cymunedau gwydn a chynnal diogelwch y cyhoedd

Rhaglen waith 2026-28

Blaenoriaeth Strategol 1: Atal Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

No.	Gweithred	Allbwn	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Amserlen	Blaenoriaeth Strategol
Tudalen 46	1 Targedu ardaloedd ymddygiad gwrthgymdeithasol problematig: drwy ein pwerau o fewn Deddf YGG, Troseddu a Phlisma 2014 – drwy orfodi'r Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus (GDMC) presennol ac ymgymryd ag Adolygiadau Achosion YGG Dulliau datrys problemau aml-asiantaeth o unrhyw faterion wrth iddynt godi Gweithredu a monitro parhaus Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Bangor (GDMC) Cael mynediad at gyllid penodol h.y. ar gyfer teledu cylch cyfyng ychwanegol/gwella goleuo	Monitro gorfodi i ddeall effaith GDMC Ardaloedd problemus wedi'u nodi drwy ddata'r Heddlu ac unrhyw bryderon a ddygwyd i'n sylw Ymgynghori â'r cyhoedd a phartneriaid perthnasol Ceisiadau ar sail tystiolaeth yn cael eu cyflwyno pan mae cyfleoedd yn codi	Problemau YGG penodol wedi'u targedu Dioddefwyr wedi'u rhoi wrth wraidd ymatebion i YGG parhaus Gostyngiad yn YGG	PDC / Heddlu / Cyrff perthnasol Deddf YGG 2014	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 1.1 a 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
	Darparu cydlynid a chysondeb thematig dan arweiniad y PDC ar gyfer cyflwyno rhaglen ddiogelwch aml-asiantaeth Crucial Crew ar draws ysgolion uwchradd Gwynedd ac Ynys Môn.	Cytundeb partneriaid wedi'i gyrraedd; rhaglen gyson wedi'i datblygu; cyflwyno ar draws yr ysgolion uwchradd sy'n cymryd rhan	Cynnydd mewn ymwybyddiaeth a gwydnwch ymhlith pobl ifanc; lleihad mewn ymddygiadau cymryd risg; atal ymddygiad gwrthgymdeithasol (YGG), ecsbloetio a niwed yn gynharach.	PDC / Asiantaethau partner		Blaenoriaeth 1.1 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
	2 Cyflawni Strategaeth Lleihau Niwed Alcohol newydd Gogledd Cymru 2025-28 sydd â'r nodau canlynol: Hyrwyddo dull diogel a synhwyrol o yfed alcohol	Strategaeth wedi'i hadnewyddu wedi'i chyhoeddi ym mis Mehefin 2025	Anogir perthynas fwy diogel ac iachach ag alcohol trwy ddull cydweithredol, sy'n seiliedig ar bartneriaeth	Fforwm Atal a Lleihau Niwed Rhanbarthol / APB	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 1.1 Strategaeth

	• Diogelu teuluoedd a chymunedau ehangach rhag effeithiau negyddol alcohol • Lleihau effaith niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol • Cynhyrchu perthnasoedd gwaith cadarn a llwybrau cyfeirio rhwng darparwyr gwasanaeth	Grŵp Cyflawni i gwrdd yn chwarterol	Lleihau effeithiau niweidiol yfed alcohol ar draws Gogledd Cymru Gwella iechyd y cyhoedd			Gogledd Cymru Mwy Diogel Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru
3	Bydd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (GTAGC) yn parhau i gyflwyno'r rhaglen cyfeirio ieuenctid <i>Phoenix</i> i fynd i'r afael ag YGG / problemau ymddygiadol / hunan-barch isel	Parhau i gyflwyno'r rhaglen ymyrraeth yn y rhanbarth Pobl ifanc yn cael cyfle i ddysgu sgiliau newydd, rhyngweithio fel rhan o dîm a darganfod talentau	Pobl ifanc yn cael eu haddysgu am bwysigrwydd diogelwch tân a chanlyniadau tanau bwriadol a galwadau ffug Mwy o hyder a sgiliau rhyngbersonol i bobl ifanc Gostyngiad mewn tanau/YG Gostyngiad yn nifer y troseddwyrr ailadroddus	GTAGC	Drwy gydol 2026-28.	Blaenoriaeth 1 yn Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
Blaenoriaeth Strategol 2: Mynd i'r Afael â Throseddau Treisgar						
No.	Gweithred	Allbwn	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Amserlen	Blaenoriaeth Strategol
4	Cwrdd â'n cyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Trais Difrifol (DTD) newydd – mae trais difrifol bellach yn flaenoriaeth statudol benodol i PDC. Mae strategaeth ranbarthol wedi'i datblygu ar gyfer Gogledd Cymru. Fel y llynedd, byddwn yn cydlynu gwariant lleol o Arian DTD y Swyddfa Gartref ar sawl ymyriad ataliol yn Ynys Môn a Gwynedd: I'w benderfynu	Yn seiliedig ar 4 blaenoriaeth, parhau i ymateb i'r Strategaeth Ranbarthol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2024 Achos busnes i'w gyflwyno i'r OPCC Achos busnes i'w gymeradwyo gan yr OPCC Prosiectau i'w cwblhau a'u gwerthuso erbyn mis Mawrth 2027	Mae cyfrifoldebau statudol o dan y Dyletswydd yn cael eu bodloni'n lleol Mae camau gweithredu sy'n deillio o'r strategaeth yn cael eu cyflawni a'u hadolygu DTD wedi'i weithredu i atal a lleihau trais difrifol ledled y rhanbarth Ymyriadau lleol yn canolbwyntio ar atal a gyflwynwyd yn lleol trwy gyllid DTD i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol trais difrifol	PDC / grŵp tasg a gorffen i gydlynu gwariant lleol / Bwrdd Llywio Rhanbarthol DTD	Drwy gydol 2026/27	Blaenoriaeth 2.4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel

5	<u>Trais yn erbyn Menywod a Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)</u> Cynyddu ymwybyddiaeth o adrodd cam-drin domestig a mynediad at wasanaethau a diogelwch i ddioddefwyr Cynyddu ymwybyddiaeth o Ymyrraeth Gan Wylwyr, perthnasoedd iach ac atal Dyrannu adnoddau diogelwch a ariennir drwy'r Grant Cyfalaf VAWDASV Llywodraeth Cymru Datblygu a threalu deunyddiau i gynnal Digwyddiadau Dysgu Adolygiadau Marwolaethau Domestig (DHR) ar gyfer ein staff yn seiliedig ar yr argymhellion o adolygiadau blaenorol Gweithredu Parthau Diogel ym Mangor a Chaernarfon a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd.	Hyrwyddo Llinell Gymorth Byw Heb Ofn, Clare's Law, a Gorwel yn barhaus Codi ymwybyddiaeth barhaus o themâu sy'n deillio o ddysgu DHR, gan gynnwys – pobl hŷn fel dioddefwyr, cam-drin wedi'i hwyluso gan dechnoleg, cam-drin teuluol, gwledigrwydd a hunanladdiad sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig Nodi ymgyrch flynyddol y Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd Trefnu sesiynau hyfforddi i staff a hyrwyddo hyfforddiant sydd ar gael. Hyrwyddo Parthau Diogel drwy gyfathrebu partneriaid, ymgyrchoedd ac ymgysylltu â busnesau, staff a'r cyhoedd.	Mae proffil cam-drin domestig, y sefyllfa yn lleol, a'r cymorth sydd ar gael yn cael ei godi Gwell dealltwriaeth o ymyrraeth gynnar Dioddefwyr risg uchel wedi'u darparu gyda chaledu targed Cynnydd mewn ymwybyddiaeth o Parthau Diogel; teimladau gwell o ddiogelwch; cymorth ac ymyrraeth gynharach i bobl sydd mewn perygl; amgylcheddau nosweithiol mwy diogel.	PDC a phartneriaid perthnasol	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel Blaenoriaeth 2.2 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
6	Monitro cynnydd hyfforddiant Gofyn a Gweithredu - Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015	Deall darlun cyfredol o'r cynnydd Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddiant Cydweithio â'r Swyddog Datblygu Hyfforddiant Rhanbarthol ac adrannau hyfforddi perthnasol i fonitro a gwella cynnydd	Gwell ymwybyddiaeth mewn Awdurdodau Lleol o drais domestig i alluogi cyfeirio effeithiol at wasanaethau cymorth Mae gofynion statudol ar gyfer Gofyn a Gweithredu yn cael eu bodloni	Adrannau hyfforddi/PDC Swyddog hyfforddi rhanbarthol	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel

Tudalen 49	7	Datblygu Siarter Diogelwch Menywod yn y Nos ar gyfer economi nos Gogledd Cymru, i annog busnesau i ymrwymo a galluogi newid systemig ar gyfer blaenoriaethu diogelwch menywod	Datblygu deunyddiau siarter a hyrwyddo Ymgysylltu â busnesau lleol a digwyddiad lansio	Gwahodd busnesau Gogledd Cymru i gymryd safiad dim goddefgarwch ar aflonyddu ar fenywod Newid cadarnhaol i brofiadau menywod yn y nos ledled Gogledd Cymru	PDC mewn cydweithredia d â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 1.3 a 2.2 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
	Blaenoriaeth Strategol 3: Mynd i'r Afael â Throseddau Trefniadol Difrifol						
	No.	Gweithred	Allbwn	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Amserlen	Blaenoriaeth Strategol
	8	Nodi Troseddau Cyfundrefol (<i>Serious Organised Crime/SOC</i>) sy'n dod i'r amlwg a bygythiadau Trais Difrifol gysylltiedig, â gweithio gyda'i gilydd i ddarparu ymateb effeithiol i fygythiadau o'r fath	Grŵp SOC Rhanbarthol ar waith ar gyfer Gwynedd a Môn –i gyflwyno Strategaeth 4P a nodi lleoliadau, unigolion a grwpiau agored i niwed	Atal gweithrediad troseddwy difrifol a threfnus yng Ngwynedd ac Ynys Môn Lleihau achosion o drais difrifol sy'n gysylltiedig â llinellau sirol a'r farchnad gyffuriau	PDC / Grŵp SOC Rhanbarthol	Drwy gydol 2026-28	Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
Tudalen 49	9	Asiantaethau sy'n cymryd dull partneriaeth ar y cyd ar gyfer gweithredu'r fenter <i>Clear Hold Build</i> ym Mangor i gyflawni a chynnal gostyngiadau mewn SOC â throseddau cysylltiedig yn yr ardal	<i>Cyfnod 'clear'</i> wedi'i weithredu gan HGC. Gweithdy amlasiantaeth i ddatblygu Cynllun 4P – Mehefin 2025 <i>Cyfnodau 'Hold' / 'Build'</i> i'w gweithredu gyda phartneriaid a'r gymuned ehangach Dull a arweinir gan y gymuned i nodi atebion tymor hir	Lleihau troseddu, ofn troseddu, adfywio ac adnewyddu ym Mangor Mae ymateb lleol i SOC yn gynaliadwy ac yn symud y tu hwnt i dactegau gorfodi confensiynol	PDC / Heddlu Gogledd Cymru / Grwpiau Gweithio	Drwy gydol 2026-28	Blaenoriaeth 3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
	10	Gweithredu pecyn hyfforddiant SOC pwrpasol ar gyfer partneriaid, gan gynnwys staff Awdurdodau Lleol ar draws adrannau a thu hwnt	Pecyn hyfforddiant wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno; rheolwyr a staff rheng flaen wedi'u hyfforddi; cynnydd mewn ymwybyddiaeth o ddangosyddion Troseddau Trefniadol Difrifol (SOC).	Codi ymwybyddiaeth o droseddau trefniadol difrifol: beth i gadw llygad amdano, rôl ein partneriaid, a sut y gallwn oll wneud gwahaniaeth	PDC / Heddlu Gogledd Cymru	Drwy gydol 2026-28	Blaenoriaeth 3.1 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel

		Trefnu a chyflwyno sesiynau i dros 150 o aelodau staff i ddechrau, gyda'r posibilrwydd o ehangu'r ddarpariaeth ymhellach	Cydlynu ac ymgysylltu rhagweithiol gan bartneriaid i ddiogelu ein cymunedau rhag y bygythiad o SOC			
Blaenoriaeth Strategol 4: Diogelu ac Adeiladu Cymunedau Gwydn a Chynnal Diogelwch y Cyhoedd						
No.	Gweithred	Allbwn	Canlyniad	Cyfrifoldeb	Amserlen	Blaenoriaeth Strategol
11	Byddwn yn sicrhau y bydd cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal Adolygiadau Dynladdiad Domestig (<i>DHR</i>) yn cael eu cwblhau'n briodol. Ers y lansiad ar 1af o Hydref 2024, bydd unrhyw adolygiadau newydd a gomisiynir o dan y broses Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (<i>ADUS</i>). Mae hyn yn golygu sicrhau bod paneli adolygu, cadeiryddion ac awduron priodol yn cael eu comisiynu, a bod adroddiadau adolygu terfynol yn cael eu cyflwyno a'u derbyn gan y Swyddfa Gartref (Llywodraeth Cymru ar gyfer ADUS) cyn eu cyhoeddi.	Paneli adolygu, Cadeiryddion ac Awduron yn cael eu comisiynu ar gyfer yr adolygiadau, ymgysylltu ag asiantaethau lleol yn ôl yr angen Ymgymryd â'r DHR, monitro cynnydd a dysgu, a chyflwyno i'r Swyddfa Gartref/Llywodraeth Cymru	Mae'r cyfrifoldebau a roddir ar y PDC mewn perthynas â chynnal adolygiadau <i>DHRs</i> wedi'u cwblhau'n briodol Cynlluniau gweithredu ar waith i ymateb i argymhellion - gwersi a ddysgwyd i wella gwasanaethau yn y dyfodol a diogelu dioddefwyr	PDC / Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru	Drwy gydol 2026/28	Blaenoriaeth 2.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
12	Cyflawni ar y Dyletswydd Atal statudol – mae hyn yn cael ei oruchwylio gan y PDC Diweddaru ein trefniadau yn ôl yr angen ar y cyd â Chynghorydd Rhanbarthol y Swyddfa Gartref Datblygu a gweithredu pecyn hyfforddi wyneb yn wyneb pwrpasol ar gyfer staff	Diweddaru Cynllun Atal rhanbarthol i adlewyrchu'r risg gyfredol Ymateb i'r Broses Sicrwydd flynyddol gyda'r Swyddfa Gartref – cwblhau hunanasesiad ac ymateb i argymhellion Datblygu a gweithredu cynllun hyfforddi a pholisi llogi lleoliad Parhau fel aelodau rhagweithiol o'r Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol	Cyfrannu at Gynllun Gweithredu Bwrdd CONTEST rhanbarthol Cyfrannu at ganlyniadau'r Swyddfa Gartref Atal i leihau radicaleiddio Gwella ymwybyddiaeth drwy'r ddau awdurdod lleol o egwyddorion y Dyletswydd Atal a sut i wneud atgyfeiriadau Ymyrraeth gynnar i unigolion sy'n agored i radicaleiddio	PDC / Adranau perthnasol Awdurdodau Lleol/Grŵp Cyflawni Atal Rhanbarthol	Drwy gydol 2025/26	Cynllun Atal y Swyddfa Gartref Bwrdd CONTEST Rhanbarthol Blaenoriaeth 4.3 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
13	Gweithredoedd i atal hunanladdiad ac hunan niwed, yn cynnwys:	Strategaeth newydd Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi eleni	Atal drwy ymateb amlasiantaethol	PDC / Fforwm Rhanbarthol	Drwy gydol 2026-28	Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru Atal

	- Gweithredu yn unol a'r Cynllun Gogledd Cymru ac adrodd ar hyn ar sail cynlluniau unigol i'r ddwy Sir - Aelodau parhaol o'r Fforwm Rhanbarthol - Mynychu a chyfrannu i'r is-grwpiau i ymateb i faterion penodol	Fforwm yn cyfarfod yn chwarterol	Sicrhau cymunedau gwybodus a thosturiol, sydd wedi eu grymuso drwy wybodaeth ac ymwybyddiaeth Cymorth a gwasanaethau sy'n diwallu anghenion Ymatebion amserol i hunanladdiadau a cymorth tosturiol ar gael i bawb yr effeithir arnynt			Hunanladdiad a Hunan-niweidio Cymru 2025-2028 Blaenoriaeth 4 Strategaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
14	Cyflwyno'r Cynllun Camddefnyddio Sylweddau Rhanbarthol drwy'r Bwrdd Cynllunio Ardal (<i>BCA/Area Planning Board APB</i>)	Datblygwyd Cynllun Blynyddol 2025-26 yn seiliedig ar flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru Yn cael ei fonitro gan weithred yr APB ac mae diweddariadau'n cael eu darparu i'r PDC	Mae niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau yn cael eu lleihau Mae iechyd a lles unigolion a chymunedau yn cael eu gwella Amgylchedd mwy cefnogol a chynhwysol i'r rhai yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau	APB	Drwy gydol 2026-28	Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau Llywodraeth Cymru

This page is intentionally left blank

03/2026

Cyngor Sir Ynys Môn Adroddiad Sgriwtini

Pwyllgor:	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dyddiad:	13 Hydref, 2026
Pwnc:	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Cadeirydd Sgriwtini:	Cynghorydd Sonia Williams

1. Pwy fydd yr aelod portffolio yn cyflwyno / arwain yr adroddiad?

Aelod Portffolio	Rôl
Amherthnasol	
Swyddog Gwasanaeth (yn cefnogi)	Rôl
Elin Allsopp	Swyddog Sgriwtini

2. Pam y gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y mater

Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2026/27

3. Rôl y Pwyllgor Sgriwtini ac argymhellion

- ☒ Er sicrwydd
- ☐ Er argymhelliad i'r Pwyllgor Gwaith
- ☐ Er gwybodaeth

Argymhelliad(ion):

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2026/27

A2 nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

4. Sut mae'r argymhelliad(ion) yn cyfrannu at amcanion Cynllun y Cyngor?

Argymhelliad(ion):

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

5. Themâu sgriwtini allweddol

Y meysydd allweddol ddylai'r Pwyllgor Sgriwtini ganolbwyntio arnynt:

1.

6. Pwyntiau allweddol / crynodeb

1. Cefndir

- 1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgrwtini effeithiol llywodraeth leol¹. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgrwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgrwtini:
 - i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
 - ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda²

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgrwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgrwtini Blynnyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. Cyd-destun Lleol

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny
- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

¹ A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

² A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

Canlyniad: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgrwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgrwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgrwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwyllo'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd “Cyngor cyfan” tuag at Sgrwtini:** mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgrwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

- i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
- ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
- iii. Parhau i esblygu.

3. Materion ar gyfer eu hystyried

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgrwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2026/27 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf³

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgrwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgrwtini).

7. Asesiadau effaith

7.1. Asesiad effaith integredig (ystyriaethau cydraddoldeb, y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, a'r Gymraeg) wedi ei gynnal?

☐ Do

☒ Naddo

³ Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio a gynhaliwyd ar 28 Medi, 2026

Os naddo, eglurwch pam: Amherthnasol

7.2 Effeithiau posibl ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Amherthnasol

7.3 Effeithiau posibl ar bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol (penderfyniadau strategol)

Amherthnasol

7.4 Effeithiau posibl ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried

7.5 Effaith posibl ar darged Carbon Sero Net y Cyngor

Positif / Niwtral / Negyddol a sut
Amherthnasol

8 Goblygiadau ariannol

Amherthnasol

9 Atodiadau

Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgrwtini Partneriaeth ac Adfywio 2026/27

10 Awdur yr adroddiad a phapurau cefndir

Elin Allsopp, Swyddog Sgrwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW

RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI

Cyfnod: Mai 2026 i Ebrill 2027 Fersiwn dyddiedig: 05/10/26

Nodyn i Randdeiliaid a'r Cyhoedd

Mae yna [Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini](#) wedi'i gyhoeddi gan y Cyngor.

Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio'r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma.

Cysylltwch â'r Tîm Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [sgriwtiniscrutiny@ynysmon.llyw.cymru]

Mai 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mai, 2026 (12/05/2026)	Mai, 2026 (12/05/2026)
Ethol Cadeirydd: 2026/27	Ethol Cadeirydd: 2026/27
Ethol Is-gadeirydd: 2026/27	Ethol Is-gadeirydd: 2026/27

Mehefin 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mehefin, 2026 (10/06/2026) – Ch4	Mehefin, 2026 (09/06/2026) – Addysg / Iaith Gymraeg
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2025/26	Y Gymraeg • Adroddiad Blynnyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2025/26 • Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032: Mesur Cynnydd→2024/25

Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2026/27	Adroddiad ADY a Ch 2025/26-mesur cynnydd
Arolygiaeth Gofal Cymru	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch 4 2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Gorffennaf 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dim cyfarfod wedi'i raglennu	Gorffennaf, 2026 (14/07/2026)
	Cyfoeth Naturiol Cymru
	Cynllun Strategol Taclo Tlodi
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Medi 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Medi, 2026 (16/09/2026) – Ch1	Medi, 2026 (15/09/2026) -Cyfarfod Arbennig
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2026/27	Adroddiad yn dilyn ymgynghoriad ar yr Ardoll Ymwelwyr
Strategaeth Tai Gwag 2023-2028-mesur cynnydd	Adroddiad Masnachfreinio Bysiau
Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai) 2024-2029-mesur cynnydd	Casglu Gwastraff ac Ailgylchu Cyn-benderfyniad Sgriwtini
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	

	Medi, 2026 (28/09/2026)
	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Hydref 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Hydref, 2026 (14/10/2026)	Hydref, 2026 (13/10/2026)
Adroddiad Blynnyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2025/26	Tân ac Achub Gogledd Cymru
Adroddiad Cynydd Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol	Adroddiad Blynnyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2025/26
Adroddiad Blynnyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2025/26	Eitem er gwybodaeth: Uchelgais Gogledd Cymru: Adroddiad Cynnydd Ch1: 2025/26
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Tachwedd 2026

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Tachwedd, 2026 (11/11/2026) - Ch2	Tachwedd, 2026 (10/11/2026)
	Cronfa Lefelu i Fyny, Cronfa Twf Leol ac Adroddiad SPF

Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2026/27	Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd
Adroddiad Hunanasesiad, Perfformiad a Llesiant 2025/26	Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg
Diogelu Corfforaethol	Eitem er gwybodaeth: Cynllun Strategol Rheoli Asedau-mesur cynnydd
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Ionawr 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Ionawr, 2027 (19/01/2027) – Cyllideb 2027/28	Ionawr, 2027 (20/01/2027)
2027/28 Sefydlu Cyllideb (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: - Adroddiad Blynnyddol 2025/26 - Trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant
Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau	Cynllun Strategol Tuag a Sero Net 2026-2031- mesur cynnydd (Targedau Ynni Gwasanaethau Tai)
	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch2 2025/26 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Chwefror 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Chwefror, 2027 (17/02/2027) –2027/28 Cyllideb	Chwefror, 2027 (16/02/2027)
Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2027/28 – refeniw a chyfalaf	Porthladd Rhydd Ynys Môn-mesur cynnydd

Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Adnoddau	Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Mawrth 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Mawrth, 2027 (10/03/2027) - Ch3	Mawrth, 2026 (09/03/2027)
Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2026/27	Grŵp Llandrillo Menai
Strategaeth Grant Cymorth Tai 2027-2031	Gwasanaeth ADY a Chynwysiant-mesur cynnydd
Adroddiad Blynnyddol ar Gydraddoldeb: 2025/26	Eitem er gwybodaeth: Adroddiad Cynnydd Ch3 2026/27 Uchelgais Gogledd Cymru
Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27	Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2026/27

Ebrill 2027

Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
Dim cyfarfod wedi'i raglennu	Dim cyfarfod wedi'i raglennu

This page is intentionally left blank